# Arweinlyfr Mannau Gwyrdd

## Canllaw Ymarferol i Asesu'r Adnodd a Gweithredu Safonau Lleol ar gyfer Darparu Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Ymgymerwyd â’r prosiect gwreiddiol ar ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2006 gan:

Centre for Urban and Regional Ecology
School of Planning and Landscape
University of Manchester
Oxford Road
Manchester
M13 9PL

Cyflawnwyd y gwaith diweddaru yn 2010 gan:

Environment Systems
8G Parc Gwyddoniaeth Cefn Llan
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AH

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Tudalen 1** | **Rhagair** |
| **Tudalen 2** | **Cyflwyniad** |
| **Tudalen 7** | **Cam 1: Dechrau** |
| **Tudalen 10** | **Cam 2: Adnabod Safleoedd sy’n Ymgeiswyr** |
| **Tudalen 17** | **Cam 3: A yw Ardal sy’n Ymgeisydd yn Ardal Naturiol?** |
| **Tudalen 24** | **Cam 4: A yw Ardal Naturiol yn Hygyrch?** |
| **Tudalen 28** | **Cam 5: Dadansoddi’r Ddarpariaeth** |
| **Tudalen 34** | **Cam 6: Datblygu’r Ymateb o ran Polisi a Rheolaeth** |
| **Tudalen 43** | **Casgliad** |
| **Tudalen 44** | **Llyfryddiaeth** |
| **Tudalen 45** | **Diolchiadau** |
| **Tudalen 46** | **Manylion Cyswllt Cyngor Cefn Gwlad Cymru** |

# Rhagair

Yn gyson ni roddir gwerth digon uchel ar bwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol, yn enwedig y cyfraniad y mae'n ei wneud i'n hiechyd a'n heconomi. Er enghraifft, mae dros hanner oedolion Cymru yn rhy drwm neu'n rhy dew, a gwyddom mai cerdded mewn mannau gwyrdd yw un o'r ffyrdd gorau o ddatblygu arferion ymarfer corff a allai ddod â'r argyfwng hwn o ran iechyd i ben. Ond mewn ardaloedd helaeth o'n trefi, ein dinasoedd, a'n pentrefi hyd yn oed, ni cheir digon o'r math iawn o fan gwyrdd sydd yn y cyflwr iawn ac yn y lle iawn i wneud y gwaith. Bydd yr arweinlyfr hwn yn eich galluogi i gael y dystiolaeth i wneud rhywbeth am y sefyllfa.

Erbyn 2010 roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cynnal asesiad o fannau gwyrdd naturiol hygyrch gan ddefnyddio fersiwn cyntaf yr arweinlyfr, a nododd sawl un ei fod yn effeithiol iawn. Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau hynny'n seiliedig ar fapiau, ffotograffau o'r awyr a chronfeydd data a oedd yn bodoli eisoes, ond nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ystyried barn ac anghenion y trigolion lleol. Gobeithiaf y bydd cyhoeddi'r arweinlyfr hwn yn galluogi'r awdurdodau hynny i wella eu hasesiadau, a chynnwys tystiolaeth ynghylch safbwyntiau lleol ar ansawdd mannau gwyrdd.

Bydd yr arweinlyfr hwn sydd wedi'i ddiweddaru yn eich helpu i fonitro effeithiau gwelliannau a wnaed i fannau gwyrdd ers cynnal yr asesiad cyntaf - gan ddangos y gwerth a grëwyd am unrhyw arian a fuddsoddwyd. Bydd hefyd yn dangos lle mae gwaith datblygu newydd wedi creu'r angen am welliannau - er mwyn creu mannau gwyrdd newydd yn lle rhai a gollwyd, neu er mwyn gwella mynediad i fannau sy'n bodoli eisoes.

Yn ogystal gallwch ddefnyddio'r arweinlyfr hwn i ragweld yr effaith a gaiff datblygiadau newydd, neu welliannau i fannau gwyrdd, ar y broses o ddarparu'r mannau y mae eu hangen at ddibenion iechyd a lles pobl. Gall datblygwyr ac awdurdodau lleol ddefnyddio'r arweinlyfr fel tystiolaeth yn ystod y broses gynllunio: gall y safonau cyffredin sydd yn yr arweinlyfr ddarparu iaith gyffredin ar gyfer sgwrsio a thrafod.

Bydd cynnal asesiad diweddar o fannau gwyrdd yn eich ardal nid yn unig yn rhoi'r dystiolaeth y mae ei hangen ar gyfer Strategaeth Mannau Agored; bydd hefyd yn hybu'r broses o ddarparu mannau sy'n hollbwysig i les yr holl drigolion - sef prif ddiben pob awdurdod lleol, mae'n siŵr.

Gan fod Llywodraeth Cymru wrthi'n arwain ailarfarniad sylweddol o'r egwyddorion, y fframweithiau a'r adnoddau yr ydym yn eu defnyddio i reoli amgylchedd Cymru, mae galluogi'r cyhoedd yn lleol i ymgysylltu a'u galluogi i fwynhau eu mannau gwyrdd yn bwysicach nag erioed, ac rwy'n ffyddiog y bydd yr arweinlyfr hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith hwnnw.

Morgan Parry
Cadeirydd
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Mehefin 2011.

# Cyflwyniad

Cred Cyngor Cefn Gwlad Cymru fod gan fannau gwyrdd naturiol hygyrch gyfraniad pwysig i'w wneud i ansawdd yr amgylchedd ac ansawdd bywyd mewn ardaloedd trefol ac o'u cwmpas. Caiff safleoedd o'r fath eu gwerthfawrogi gan y gymuned, maent yn darparu noddfeydd pwysig i fywyd gwyllt mewn ardaloedd sydd fel arall yn dlawd, ac maent o fudd i iechyd a lles y cyhoedd. Mae systemau wedi'u sefydlu eisoes i adnabod, dynodi a gwarchod safleoedd y mae iddynt werth arbennig ar gyfer bioamrywiaeth, ac nid yw'r arweinlyfr hwn yn ceisio eu disodli mewn unrhyw fodd. Yn hytrach, mae'n darparu dull ehangach a mwy cynhwysol o sicrhau bod gan bobl mewn ardaloedd trefol gyfle i gael profiad o fyd natur ar garreg eu drws.

***Safonau ar gyfer Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch***

**Blwch 1: Safonau ar gyfer Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch**

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn argymell na ddylai neb fyw ymhellach na 300m o'u man gwyrdd naturiol agosaf. Yn fras, mae hynny'n cyfateb i chwe munud o gerdded[1]. Argymhellir y dylid cael o leiaf 0.25ha. Dylid darparu o leiaf 0.25ha o fan gwyrdd naturiol hygyrch i bob 1000 o bobl, gan ddilyn system o haenau y mae safleoedd o wahanol faint yn perthyn iddynt, fel a ganlyn:

- Yr Haen Gyntaf: ni ddylai neb fyw ymhellach na 300m o'u man gwyrdd naturiol agosaf;
- Yr Ail Haen: dylai o leiaf un safle hygyrch sy'n fwy nag 20ha o faint fod o fewn 2km i gartref pawb;
- Y Drydedd Haen: dylai un safle 100ha hygyrch fod o fewn 5km;
- Y Bedwaredd Haen: dylai un safle 500ha hygyrch fod o fewn 10km.

Diben yr arweiniad hwn yw egluro'r egwyddorion a'r rhesymeg dros ddarparu Safonau ar gyfer Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch, er mwyn helpu awdurdodau lleol i adnabod lefel bresennol y ddarpariaeth ac er mwyn helpu i gynhyrchu safonau a thargedau lleol. Er y disgwylir y dylai awdurdodau lleol geisio bodloni darpariaethau'r safon, cydnabyddir y bydd hynny'n anos mewn rhai cyd-destunau trefol nag eraill. Felly, caiff awdurdodau lleol eu hannog i benderfynu drostynt eu hunain ar yr ymateb mwyaf priodol o ran polisi, yng ngoleuni dealltwriaeth gadarn o'r rhesymeg, anghenion y gymuned leol, gwerth mannau gwyrdd naturiol hygyrch i'r gymuned honno, yr adnodd mannau gwyrdd sy'n bodoli eisoes, a chyfyngiadau ariannol posibl.

Er mwyn helpu i bennu blaenoriaethau lleol, mae Atodiad 1 yr arweinlyfr hwn yn nodi'r cyfeiriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol a geir at ddarparu mannau gwyrdd ym mhob un o ddogfennau polisi a strategaeth perthnasol Llywodraeth Cymru.

**Blwch 2: Beth yw mannau gwyrdd naturiol?**

Deellir mai ystyr 'naturiol' yma yw rhinwedd arbennig y gall mannau gwyrdd ei gynnig. Mae ardaloedd naturiol yn fannau lle mae strwythur mannau gwyrdd ac ansawdd gwaith rheoli'n uno i gynnal fflora a ffawna amrywiol neu neilltuol na fyddai modd eu gweld fel arall efallai mewn amgylchedd adeiledig. 'Prosesau naturiol' (tyfu, atgenhedlu a marw) sydd fwyaf amlwg yma, a bydd yr ymwelydd yn mwynhau ymdeimlad neilltuol o le.

Gall ardaloedd trefol gynnwys ystod eang o fannau gwyrdd, megis parciau a gerddi cyhoeddus, caeau chwarae, tir diffaith, mannau gwyrdd

[1] Ysgrifennwyd y safon hon yn strategaeth Cynulliad Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol: Dringo'n Uwch, 2005 (Targed 12).

sefydliadau a mannau gwyrdd preifat, ond gallant hefyd gynnwys coetiroedd, gwlyptiroedd, ffermdir yn yr ardaloedd o gefn gwlad ehangach sydd ar gyrion trefi, ac ardaloedd arfordirol. Gall y mannau gwyrdd hyn i gyd ddarparu ar gyfer profiad o fyd natur, yn dibynnu ar bresenoldeb a hyd a lled nodweddion megis coed a grwpiau o goed â phrysgwydd, glaswelltiroedd a reolir yn llai dwys, llystyfiant gwlyptir, a dŵr wyneb ag ymylon llydan lle gall nodweddion megis cyrs ddatblygu.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi yma bod yr arweinlyfr yn hybu'r cysyniad o fannau gwyrdd *amlswyddogaeth*, a fyddai'n ei gwneud yn bosibl dweud hefyd bod ardal o barcdir neu gaeau chwarae a reolir yn naturiol, yn rhannol o leiaf, os bodlonir y meini prawf priodol ac os oes dulliau rheoli cydnaws ar waith.

Rhoddir mwy o arweiniad ynghylch y diffiniad o 'naturiol' yng Ngham 3 yr arweinlyfr hwn.

Er bod yr arweinlyfr yn ymwneud yn bennaf â mannau gwyrdd naturiol hygyrch ar y tir, yng Nghymru cydnabyddir hefyd bwysigrwydd cyfraniad y forlin at ansawdd bywyd, a'r profiad naturiol y gall ei gynnig. Trwy'r arweiniad hwn i gyd, cyfeirir yn arbennig at yr angen i ystyried yr arfordir trefol.

Ni ddylai'r arweinlyfr gael ei ystyried yn broses haearnaidd; yn hytrach, dylai gael ei ystyried yn darged dyheadau, y gellir gosod blaenoriaethau lleol a mesur cynnydd yn ei erbyn. Mae gweithredu'r model yn fan cychwyn proses greadigol o gynllunio a rheoli mannau gwyrdd; nid yw'n ddiben ynddo'i hun. Bwriedir i'r canllaw hwn amlinellu dull cyffredinol o ddefnyddio'r arweinlyfr, a chyflwyno opsiynau ynghylch ffyrdd o'i deilwra fel ei fod yn addas i'r adnoddau sydd ar gael a'r cyd-destun lleol.

**Blwch 3: Pam y mae arnom angen mannau gwyrdd naturiol hygyrch?**

Mae adolygiadau llenyddiaeth wedi dangos tystiolaeth helaeth o werthoedd mannau gwyrdd naturiol o safbwynt amwynder/hamdden, rheoli llygredd, cymedroli'r ficrohinsawdd drefol ar gyfer bioamrywiaeth, a hybu rhyngweithio a chydlyniant cymdeithasol. Mae astudiaethau diweddar wedi dangos sut y mae mannau gwyrdd naturiol yn gwella iechyd ac ansawdd bywyd trigolion ardaloedd trefol. Mae Atodiad 2 yr arweinlyfr hwn yn rhoi mwy o fanylion am y manteision hyn i iechyd ac ansawdd bywyd, ac yn cynnig ystod o gyfeiriadau ategol.

Mae adolygiadau llenyddiaeth hefyd yn amlygu'r canlynol:

- ■ Gall y modd y caiff mannau gwyrdd eu dylunio, eu rheoli a'u defnyddio fod yn bwysicach na'u maint yn unig wrth bennu eu gwerth ecolegol. Bydd parciau'n datblygu hinsawdd fewnol pan fyddant yn fwy nag 1 hectar o faint. Mae ymchwil ynghylch coetiroedd wedi dangos mai coedwig sy'n ddau hectar o faint yw'r goedwig leiaf y bydd pobl am ymweld â hi'n rheolaidd. Mae angen dulliau hierarchaidd o gynllunio ar gyfer mannau gwyrdd ar wahanol lefelau, o safbwynt cadwraeth ac o safbwynt defnyddwyr.
- ■ Bydd mwyafrif helaeth y sawl sy'n defnyddio parciau yn cerdded iddynt; felly mae pellter yn ffactor pwysig ar gyfer defnyddio mannau agored. Ymddengys mai rhyw 5-6 munud o gerdded, sy'n cyfateb i bellter o ryw 300m o'r cartref, yw'r trothwy. Mae unrhyw beth y tu hwnt i hynny'n golygu bod y mannau dan sylw'n cael eu defnyddio'n llai aml o lawer.
- ■ Bydd hynny'n amrywio gyda'r dirwedd. Mewn tirwedd fryniog iawn mae Rheol Naismith (a luniwyd gan William Naismith yn 1892) yn awgrymu y dylid ychwanegu oddeutu 10 munud o waith cerdded ar gyfer pob 100m o gynnydd mewn uchder.
- ■ Gall yr hyn a gaiff ei ystyried yn naturiol amrywio rhwng ecolegwyr a defnyddwyr mannau gwyrdd. Bydd ecolegwyr yn pennu gwerth mannau

gwyrdd yn ôl meini prawf megis cyfoeth o ran rhywogaethau ac amlder rhywogaethau prin, ond yn ôl defnyddwyr yn aml, ardaloedd 'naturiol' (gan gynnwys ardaloedd o gefn gwlad ehangach) yw ardaloedd sy'n hollol wahanol i'r amgylchedd trefol, lle gallant ddianc rhag bywyd a gweithgareddau trefol a cheisio ymdeimlad o lonyddwch.

■ Mae profiad o fyd natur yn rhinwedd pwysig y dylai man gwyrdd ei gynnig er mwyn bod yn ddeniadol. Fodd bynnag, anaml iawn y gwelir mai hwn yw'r unig rinwedd, neu'r rhinwedd pwysicaf. Mae hynny'n ategu'r cysyniad o fannau gwyrdd amlswyddogaeth, y mae nodweddion naturiol yn rhan annatod ohonynt.

■ Mae coridorau gwyrdd yn ddull poblogaidd a ddefnyddir mewn gwaith cynllunio trefol i gysylltu mannau gwyrdd â'i gilydd a chynnal bioamrywiaeth, a dylid eu cadw a'u gwella er mwyn cadwraeth natur, ond yn arbennig er mwyn hybu mynediad i fannau gwyrdd at ddibenion hamdden.

***Sicrhau Cynnydd***

Seiliwyd yr arweiniad hwn ar weithredu dull **llwybr cam wrth gam**, fel y dangosir isod yn Ffigur 1. Gellir crynhoi'r llwybr yn bedwar cyfnod y mae pob un ohonynt yr un mor bwysig â'i gilydd:

- **Dechrau** (Cam 1 yn Ffigur 1) – y cyfnod cynllunio, sef adeg sefydlu'r tîm, adnabod ffynonellau gwybodaeth, dyrannu adnoddau, pennu cwmpas y prosiect a phenderfynu ar ddangosyddion cynnydd.


- **Asesu** (Camau 2-4) – adeg casglu data, adnabod mannau gwyrdd lleol a sefydlu eu statws, fel bod yr adnodd mannau gwyrdd naturiol hygyrch yn hysbys.

- **Dadansoddi** (Cam 5) – mae'n cynnwys sefydlu patrwm gofodol mannau gwyrdd naturiol hygyrch a'u dalgylchoedd cysylltiedig, yn ogystal ag adnabod yr ardaloedd hynny lle ceir diffyg darpariaeth ar hyn o bryd.

- **Ymateb** (Cam 6) – adeg gosod blaenoriaethau ar gyfer polisi a chamau rheoli, er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n codi o'r gwaith dadansoddi.

Dylai ymgynghori â'r gymuned fod yn rhan bwysig o'r broses gyffredinol, wrth asesu'r adnodd mannau gwyrdd ac wrth bennu camau rheoli priodol yn dilyn hynny.

**Ffigur 1. Y broses weithredu**



***Trefn Ddosbarthu Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch mewn Man Agored***

Gellir gweithredu'r arweiniad ochr yn ochr â threfn ddosbarthu a gynlluniwyd at ddibenion eraill. Mae'n debygol y bydd mannau gwyrdd naturiol yn perthyn i sawl categori o fannau agored a restrir yn y canllawiau polisi cynllunio cyfredol a geir yng Nghymru. Yn TAN 16, Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored[2], caiff mannau agored eu dosbarthu fel a ganlyn:

- parciau a gerddi;
- mannau gwyrdd trefol naturiol a lled-naturiol;
- coridorau gwyrdd;
- cyfleusterau chwaraeon awyr agored;
- mannau gwyrdd amwynderol;
- darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc;
- rhandiroedd, gerddi cymunedol a ffermydd trefol;
- mynwentydd a thir o amgylch eglwysi;
- ardaloedd hygyrch o gefn gwlad ar gyrion trefi;
- mannau agored dinesig;
- dŵr.

Er y gellir dod o hyd i fannau gwyrdd naturiol hygyrch yn sawl un o'r categorïau hyn o fannau agored, gellir dod o hyd iddynt hefyd mewn lleoliadau eraill megis tir sefydliadau ac ystadau diwydiannol. Mae'r arweinlyfr yn ystyried pob man gwyrdd naturiol sy'n hygyrch, ni waeth pwy yw ei berchennog na beth yw ei statws.

Gallai rheoli safleoedd yn greadigol olygu ei bod yn bosibl datblygu ardaloedd o fannau gwyrdd naturiol hygyrch mewn safleoedd presennol y mae iddynt ystod o swyddogaethau eraill. Felly, mae parodrwydd i ystyried y gallai mannau gwyrdd fod yn fannau amlswyddogaeth yn hanfodol i weithredu'r arweinlyfr yn effeithiol.

> **Blwch 4: Gwarchodfeydd Natur Lleol**
>
> Gellir defnyddio'r dynodiad arbennig hwn, sef dynodiad Gwarchodfeydd Natur Lleol, i wella mannau gwyrdd dethol oherwydd mae'r dynodiad yn rhoi ffocws i'r gymuned leol ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer addysg, ac mae hefyd yn cynnig adnodd defnyddiol i reoli a gwarchod ardaloedd o fannau gwyrdd.

I grynhoi, bwriad yr arweiniad hwn yw bod yn ychwanegiad cadarnhaol at yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol, sydd wrthi'n gweithio i ddiwallu anghenion eu cymunedau. Mae'n darparu dull hyblyg a chynhwysol o ddeall yr adnodd sy'n bodoli eisoes o ran mannau gwyrdd lleol, ac mae'n darparu system o gefnogi penderfyniadau sy'n ymwneud â phennu polisi yn y dyfodol. Ni fwriedir iddo fod yn rhwystr di-alw-amdano i ddatblygu, os yw blaenoriaethau lleol yn mynnu fel arall, ac ni fwriedir ychwaith iddo hybu gwaith darparu mannau gwyrdd naturiol ar draul mathau eraill o fannau agored gwerthfawr.

Mae gweddill yr arweiniad hwn yn nodi ac yn esbonio gwahanol gamau'r broses weithredu.

[2] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored, Ionawr 2009

## Cam 1: Dechrau

Mae'n debygol y bydd y dechrau'n cynnwys nifer o weithgareddau a phenderfyniadau ynghylch materion a fydd yn llywodraethu'r modd y bydd y broses weithredu'n cael ei chyflawni yn y dyfodol, a'r modd y bydd yn llwyddo yn y pen draw. Mae rhai o'r penderfyniadau pwysig sy'n ofynnol yn ystod y cam hwn yn cynnwys y canlynol:

- adnabod y tîm a fydd yn gyfrifol am y broses weithredu;
- clustnodi staff ac adnoddau ariannol;
- cadarnhau cwmpas ac amserlen y prosiect;
- pennu cerrig milltir ar gyfer cynnydd;
- nodi sut y dylid cyflwyno canlyniadau'r prosiect.

Byddai'r gweithgareddau sydd i'w cyflawni yn ystod y cam hwn yn weithgareddau sy'n darparu gwybodaeth allweddol i lywio'r broses weithredu, er enghraifft:

- adnabod budd-ddeiliaid y dylid ymgynghori â hwy;
- adolygu polisi cenedlaethol a lleol[3];
- casglu ffynonellau presennol perthnasol o ddata defnyddiol ac adnoddau priodol i gynorthwyo'r broses[4];
- llunio strategaeth ar sut a phryd i ymgysylltu â chymunedau lleol yn ystod y broses.

### *Dulliau Gweithredu*

Gellir gweithredu mewn gwahanol ffyrdd, er mwyn cyd-fynd â lefel yr adnoddau sydd ar gael neu er mwyn cynnal prosiect peilot cyfyngedig. Yn fras, mae tri dull gweithredu'n bosibl:

1. Bydd **gweithredu'r model yn llawn** (h.y. defnyddio safonau pob un o'r pedair haen o ddarpariaeth) yn esgor ar y canlyniadau mwyaf cyflawn, felly hwn yw'r **dull delfrydol a argymhellir**. Mae'n amlwg mai gweithredu'r model yn llawn yw'r opsiwn mwyaf cymhleth, ac mae'n debygol o fynnu'r ymrwymiad mwyaf o ran amser, arian ac adnoddau technegol. Oherwydd hynny, cydnabyddir na fydd gweithredu'r model yn llawn bob amser yn bosibl ar ddechrau'r prosiect efallai, er mai dyna yw'r nod delfrydol.
2. Mae **gweithredu'r model yn raddol** yn golygu y gellir gweithredu rhan o'r model yn unig i ddechrau, gyda'r bwriad o ehangu'r hyn a wneir mewn adolygiadau yn y dyfodol, nes llwyddir yn raddol i weithredu'r model yn llawn. Fel hyn, bydd prosiect sy'n gyfyngedig i ddechrau yn gadael i bobl ddod yn gyfarwydd â'r broses a meithrin hyder ynddi ar gyflymder a reolir.
3. Wrth **weithredu'r model yn ddetholus**, defnyddir elfennau penodol yn unig ohono, ac nid awgrymir unrhyw ymrwymiad pendant i ehangu'r hyn a wneir mewn adolygiadau yn y dyfodol. Mae'r opsiwn hwn yn golygu y gellir gweithredu rhywfaint o'r model gydag adnoddau cyfyngedig, ond y bydd yn esgor ar ganlyniadau sydd â gwerth cyfyngedig. Fodd bynnag, gellir ehangu'r hyn a wneir yn rhwydd wedyn o gael adnoddau ychwanegol.

---

[3] Mae Atodiad 1 yn adolygu'r polisi cenedlaethol perthnasol
[4] Mae Atodiad 2 yn adolygu data defnyddiol ynghylch manteision o ran iechyd a lles

Gellir defnyddio'r tri opsiwn hyn yng nghyswllt gwahanol elfennau'r broses weithredu, er mwyn sicrhau bod hyblygrwydd gwirioneddol yn perthyn i'r modd y gellir defnyddio'r arweinlyfr. Mae rhai o'r posibiliadau fel a ganlyn:

- **Haenau Maint Safleoedd.** Mae'r safonau ar gyfer mannau gwyrdd naturiol hygyrch yn awgrymu pedair haen ar gyfer dalgylch a maint safleoedd, ynghyd â mesur i ddarparu yn ôl maint y boblogaeth (gweler tudalen 2), a dylid asesu pob un ohonynt wrth weithredu'r model yn llawn. Fodd bynnag, byddai modd gweithio i ddechrau gydag un haen maint safle. Hwyrach mai'r safleoedd mwyaf o ran maint yw'r rhai hawsaf eu hystyried, ond argymhellir y dylid ymdrin bob amser â safleoedd yr Haen Gyntaf (y rhai mwyaf lleol), gan mai'r safleoedd hynny yn y 'gymdogaeth' yw'r rhai mwyaf hygyrch i gymunedau lleol.

- **Cwmpas Gofodol y Gwaith Dadansoddi**. Mae'n ddigon posibl y bydd trigolion sy'n byw ar gyrion Awdurdod Unedol yn defnyddio mannau gwyrdd sydd y tu allan i ardal yr Awdurdod hwnnw. Er mwyn ystyried hynny, byddai'n ddefnyddiol edrych y tu hwnt i'r Awdurdod Unedol agosaf wrth weithredu'r broses yn llawn, a chynnwys safleoedd ar y sail ganlynol:

    - Unrhyw safle sydd y tu allan i'r Awdurdod Unedol ond sydd o fewn 300m i'w ffin;
    - Unrhyw safle 20ha sydd o fewn 2km i'r ffin;
    - Unrhyw safle 100ha sydd o fewn 5km i'r ffin;
    - Unrhyw safle 500ha sydd o fewn 10km i'r ffin.

- **Perchnogaeth Tir.** Yn ddelfrydol, dylid cynnwys y tir i gyd wrth asesu at ddiben gweithredu'r model, gan nad yw defnyddwyr mannau gwyrdd yn ystyried pwy sy'n berchen ar y tir os yw'n hygyrch ac os yw'n cynnig profiad o'r ansawdd angenrheidiol. Byddai'n bosibl gweithredu i ddechrau ar sail tir yr awdurdod lleol yn unig, er enghraifft. Mae'n debygol mai'r awdurdod lleol yw'r deiliad unigol pwysicaf o safbwynt mannau gwyrdd hygyrch, a gallai fod ganddo ddata sy'n bodoli eisoes a fyddai'n helpu'r broses asesu. Fodd bynnag, mae'n anochel y byddai unrhyw gamau i gyfyngu'r tir a gynhwysir yn arwain at amcangyfrif rhy isel o'r mannau gwyrdd naturiol sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

- **Cymhlethdod Gwaith Dadansoddi Dalgylchoedd.** Y ffordd symlaf o ddangos dalgylchoedd yw gosod perimedr ar sail pellter priodol o gwmpas terfynau safleoedd. **Clustogi** yw enw'r dechneg hon, a gellir ei rhoi ar waith â llaw neu drwy System Wybodaeth Ddaearyddol. Gellir gweld esboniad manylach o dechnegau System Wybodaeth Ddaearyddol yng Ngham 5.

Un broses bwysig ar y cychwyn yw adnabod adnoddau a ffynonellau data priodol. Mae'r ddogfen hon yn awgrymu nifer o adnoddau data gofodol a all gynorthwyo'r broses o adnabod safleoedd sy'n ymgeiswyr. Mae'r data hwn i gyd ar gael ar ffurf ddigidol, ac mae'n addas i'w ddefnyddio mewn System Wybodaeth Ddaearyddol. Cynnal archwiliadau rheolaidd o fannau agored yw'r dull a argymhellir ar gyfer datblygu set ddata sy'n gadarn ac yn gyfredol, ond gallai fod modd defnyddio mentrau arolygu parhaus eraill hefyd neu weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill.

Er nad yw defnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol yn hanfodol i weithredu'r arweinlyfr, fe'i hargymhellir yn gryf. Bydd rhaglen System Wybodaeth Ddaearyddol yn hyrwyddo effeithlonrwydd a hyblygrwydd, oherwydd bydd yn golygu bod modd:

- Integreiddio gwahanol setiau data a data arolygon;

- Defnyddio amrywiaeth o dechnegau dadansoddi er mwyn helpu i asesu'r graddau y cydymffurfir â'r safon ar y pryd;
- Asesu'r opsiynau gorau o ran polisi, a fydd yn cyfrannu at y nod yn y pen draw, sef cydymffurfio'n llawn;
- Rhannu'r canlyniadau a'r penderfyniadau o ran polisi â'r cyhoedd.

Bydd gwaith cynllunio effeithiol o'r cychwyn ynghylch y materion hyn yn hwyluso'r broses weithredu ac yn golygu bod modd dehongli'r canlyniadau'n fwy rhesymegol a chyson.

***Y Cylch Gweithredu***

Er mwyn defnyddio'r arweinlyfr hwn yn effeithiol, rhaid ei adolygu'n rheolaidd yn rhan o gylch cydnabyddedig. Mae hynny'n angenrheidiol er mwyn sicrhau:

- bod y dadansoddiad, a'r data y mae wedi'i seilio arno, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf;
- bod blaenoriaethau lleol sy'n newid, gofynion cyfreithiol a chanllawiau polisi cenedlaethol yn cael eu cydnabod a'u hystyried;
- bod blaenoriaethau'n cael eu diwygio er mwyn ystyried newidiadau mewn patrymau angen a lefelau'r adnoddau sydd ar gael;
- bod y broses yn parhau'n gyfarwydd, a bod cwmpas y modd y caiff ei gweithredu'n cael ei addasu, fel sy'n ofynnol gan amgylchiadau sy'n newid.

Bydd amlder y gwaith adolygu'n dibynnu ar ystod o amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, hwyrach y bydd llawer o awdurdodau lleol yn gweld ei bod yn hwylus ei gysylltu â'r cylch pum mlynedd sy'n perthyn i waith adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Byddai hynny'n hwyluso dull cydgysylltiedig o lunio polisïau, trwy sicrhau bod modd i'r naill broses fanteisio'n llawn ar wybodaeth y llall.

Yn y tymor hwy, ystyrir mai **ymestyn** egwyddorion yr arweinlyfr i ymdrin â phob man gwyrdd trefol yw'r ffordd ymlaen. Gallai gweithredu'r model yn llawn, a gwerthuso holl fannau gwyrdd yr ardal drefol mewn modd cyfannol, helpu i ddarparu dull cytbwys o lunio strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cynllunio a rheoli.

I grynhoi, canlyniad y cam dechreuol yw deall yr arweinlyfr, penderfynu ynghylch y prosesau perthnasol, a phennu amserlen ar gyfer gweithredu.

## Cam 2: Adnabod Safleoedd sy’n Ymgeiswyr

Yr ail gam yn y broses weithredu yw penderfynu ar leoliad a maint ardaloedd presennol o fannau gwyrdd a allai fod yn gymwys. Mae’r dull a amlinellir yma wedi’i deilwra ar gyfer mannau gwyrdd naturiol hygyrch, ond gellid ei addasu i’w gynnwys mewn archwiliad mwy cyffredinol o fannau agored. Dylai’r broses hon gychwyn trwy lunio rhestr o’r safleoedd sydd i’w hasesu. Bydd cynnwys y rhestr hon yn dibynnu ar gwmpas y prosiect gweithredu, ond o fewn y cwmpas hwnnw argymhellir y dylai’r rhestr fod mor gynhwysfawr ag sy’n bosibl, oherwydd bydd cyfyngu’r ystod o safleoedd a ystyrir yn cyfyngu ar werth y canlyniadau a geir. Gellir rhannu safleoedd sy’n ymgeiswyr yn ddau grŵp:

- **Safleoedd sy’n gymwys eisoes**. Gall y safleoedd canlynol, a ddynodwyd eisoes yn safleoedd sydd o bwys rhyngwladol neu genedlaethol, gael eu hystyried yn ‘naturiol’ trwy ddiffiniad a’u derbyn felly heb adolygiad pellach, er y bydd angen asesu eu hygyrchedd: Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Gwarchodfeydd Natur Morol yn ogystal â safleoedd sydd o bwys lleol neu ‘Safleoedd Lleol’, megis Safleoedd o Ddiddordeb i Gadwraeth Natur, Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol.
- **Safleoedd posibl**. Byddai’r ail restr yn cynnwys pob safle arall y bernir y gallent fodloni gofynion yr arweinlyfr. Mae angen gweithredu mewn sawl ffordd wrth ddewis y safleoedd hyn, ac mae’r ffyrdd hynny’n cynnwys ymgynghori’n lleol a dadansoddi mapiau a ffotograffau o’r awyr.

Er mwyn cael y canlyniadau gorau, awgrymir y dylai’r asesiad gynnwys y safleoedd lleiaf y gellir eu hadnabod yn ymarferol. Ni chaiff unrhyw derfyn ar gyfer maint lleiaf ei ragdybio yn yr arweinlyfr, ond cydnabyddir y gallai fod gan awdurdodau lleol resymau ymarferol dros ddewis defnyddio terfyn o’r fath. Ceir arweiniad ynghylch dewis maint lleiaf ym Mlwch 5. Fodd bynnag, dylai penderfyniad o’r fath gael ei wneud yn rhan o broses ddechreuol y prosiect.


Gellir cynnwys mannau arfordirol yn safleoedd sy’n ymgeiswyr hefyd, a dylid eu mapio o nodweddion y datblygiad trefol agosaf hyd at farc y penllanw. Gallai’r nodweddion trefol agosaf fod yn amddiffynfeydd môr, yn bromenâd neu’n ffordd arfordirol. Mewn sawl achos gallai’r môr fod yn cyrraedd y nodwedd drefol adeg y penllanw gan rwystro unrhyw fynediad ymarferol i’r forlin, ac felly ni fydd *safle* i’w fapio.

Yn yr arweiniad hwn, bydd y broses weithredu’n cael ei hesbonio yng nghyswllt ardal drefol ddamcaniaethol. Er ei bod wedi’i seilio ar ddinas go iawn, mae’r enghraifft ymarferol yn un hollol ddamcaniaethol er mwyn dangos yr ystod o amgylchiadau y gallai awdurdodau lleol ddod ar eu traws. Yn ystod pob cam, bydd effaith y broses yn cael ei dangos ar fap yr ardal drefol, a bydd materion allweddol yn cael eu hamlygu.


Gellir creu’r rhestr o fannau gwyrdd trwy gyflawni astudiaeth ddesg syml, a dylid tueddu i gynnwys unrhyw safleoedd nad yw eu gwerth yn sicr, gan ei bod yn well gweithredu’n ofalus yn ystod y cam hwn. Byddai’n well i safleoedd gael eu cynnwys os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch eu statws, oherwydd gellir eu heithrio’n hawdd yn nes ymlaen. Mae’r diagram isod yn dangos sut y gallai’r broses hon weithio, gan ddefnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth sy’n bodoli eisoes.

Ni cheir unrhyw ffynhonnell ddata sy’n cynnig diffiniad priodol o fan gwyrdd naturiol, sy’n addas ar gyfer y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae nifer o setiau data defnyddiol wedi’u nodi, y gellir eu hintegreiddio mewn System Wybodaeth Ddaearyddol neu y gellir eu harchwilio ar ffurf copi caled i gynorthwyo’r broses adnabod.

**Ffigur 2: Adnabod safleoedd sy'n ymgeiswyr o amrywiaeth o ffynonellau data**








Ardaloedd adeiledig, isadeiledd

Adnabod rhagor o safleoedd sy'n ymgeiswyr trwy deipoleg mannau gwyrdd
Diweddaru rhestrau sy'n bodoli eisoes

■ Safleoedd sy'n gymwys eisoes, gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, safleoedd Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Morol a 'Safleoedd Lleol' megis Safleoedd o Ddiddordeb i Gadwraeth Natur, Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol

■ Safleoedd posibl



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 100018813
2010.

Getmapping PLC 2004

**Blwch 5: Maint Lleiaf Safleoedd**

Wrth benderfynu a ddylid pennu trothwy ar gyfer maint lleiaf safle, mae angen ystyried dau gwestiwn:

- **A all safle fod mor fach fel na all gynnig profiad o fyd natur i'r ymwelydd?** Os felly, ni lwyddwyd i nodi un trothwy cyffredinol. Y rheswm am hynny yw bod gallu safle bach i roi profiad o fyd natur yn dibynnu ar ei amgylchedd, strwythur y safle ei hun, a chanfyddiad ymwelwyr ohono. Mae pob un o'r tri ffactor hyn yn amrywiol iawn, ac felly dim ond yn unigol y gellir asesu perfformiad safleoedd o'r fath, yn rhan o ymarfer arolygu.
- **A oes ffactorau gweithredol sy'n awgrymu y gall safle fod mor fach fel y bydd yn anodd yn ymarferol i awdurdodau lleol ei arolygu, ei fapio neu'i reoli?** Ceir ffactorau gweithredol ymarferol a allai awgrymu maint lleiaf safle. Mae'r ffactorau hynny'n cynnwys terfynau presennol ar gyfer adnabod safleoedd mewn Cynllun Datblygu Lleol, terfynau presennol ar gyfer mabwysiadu safleoedd sydd i'w rheoli gan awdurdod lleol, a therfynau presennol ar gyfer cynlluniau coedwigaeth drefol sy'n cael cymorth grant.

Oherwydd rhesymau ymarferol awgrymir trothwy o 0.25ha ar gyfer maint lleiaf, er y gallai awdurdodau lleol ddod o hyd i amgylchiadau lleol penodol sy'n awgrymu terfyn gwahanol sy'n llai efallai, yn enwedig yng nghyswllt safleoedd sy'n gymwys eisoes.

Mae Ffigur 2 yn dangos sut y gallai'r broses hon weithio, gan ddefnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth, ac mae Ffigur 3 yn dangos y canlyniad yn fanwl.


Y dull mwyaf dibynadwy o adnabod safleoedd priodol yw defnyddio arolwg safleoedd ynghyd â gwybodaeth leol ategol. Ceir nifer o setiau data ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cam dechreuol o lunio rhestr, a all helpu i adnabod safleoedd i'w harolygu. Un enghraifft yw:

- MasterMap yr Arolwg Ordnans a ffotograffau o'r awyr.

Yn yr enghraifft hon, defnyddir cronfa ddata MasterMap i adnabod ardaloedd a gaiff eu hystyried yn 'fannau gwyrdd naturiol'. Gellir croesgyfeirio'r rhain â ffotograffau o'r awyr a data arolygon safleoedd.

**Ffigur 3: Map Data Sylfaenol yr Arolwg Ordnans wedi'i seilio ar MasterMap yr Arolwg Ordnans**

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 100018813 (2010)
Getmapping PLC 2004



Gall ymgynghori â'r gymuned gynorthwyo'r broses o adnabod safleoedd sy'n ymgeiswyr, drwy roi cyfle i unigolion, cymunedau lleol a grwpiau budd-ddeiliaid wneud sylwadau ynghylch y broses o ddewis safleoedd. Un ffordd effeithiol o gyflawni hynny yw rhoi mapiau o safleoedd sy'n ymgeiswyr ar-lein a gwahodd sylwadau gan bobl leol (ynghylch y broses o adnabod y safleoedd ac ynghylch yr asesiad dilynol o'u naturioldeb a'u hygyrchedd). Bydd hynny'n gwella'r gefnogaeth a geir gan gymunedau lleol i'r broses weithredu gyfan. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am ymgysylltu â chymunedau lleol a grwpiau sydd dan anfantais trwy gyfeirio at ganllawiau perthnasol y Cyngor Cefn Gwlad ar y pwnc.

### Enghraifft Ymarferol: Adnabod Safleoedd sy'n Ymgeiswyr

Caiff y darlun a fydd yn ymddangos pan fydd yr ardal drefol ddamcaniaethol yn mynd drwy'r broses hon ei amlygu ym Map 1.


Yn yr enghraifft hon, mae safleoedd 'posibl' sy'n bodloni gofynion yr arweinlyfr wedi'u hadnabod. Maent yn cynnwys safleoedd sy'n eiddo i unrhyw un, ac nid i'r awdurdod lleol yn unig. Yn y modd hwn, gellir cynnwys sawl cwrs golff preifat a thir sefydliadau, ymysg safleoedd eraill.

Mae'r asesiad hwn yn cynnwys safleoedd dynodedig sy'n gymwys eisoes i fod yn safleoedd naturiol, nad oes angen ystyried eu naturioldeb ymhellach. Mae hynny, felly, yn lleihau nifer y safleoedd y bydd angen eu hasesu wedyn.

Er bod yr enghreifftiau ymarferol yn y canllaw hwn yn seiliedig ar ddinas go iawn, eu bwriad yw bod yn gwbl ddamcaniaethol ac esbonio'r prosesau dan sylw'n unig.

I grynhoi, canlyniad Cam 2 yw map a rhestr o'r holl safleoedd mannau gwyrdd sy'n ymgeiswyr, yn barod i symud ymlaen i'r camau sy'n ymwneud ag asesu naturioldeb a hygyrchedd.

Mae Ffigur 4 yn dangos enghreifftiau ffotograffig o ystod o fannau gwyrdd sy'n ymgeiswyr, er mwyn esbonio'r mathau o dir a allai gael ei gynnwys.



Mae'r wybodaeth ar y map hwn at ddibenion esbonio'n unig

Map 1:
Mapio'r safleoedd sy'n ymgeiswyr

**Safleoedd sy'n ymgeiswyr**

- Safleoedd sy'n gymwys eisoes
- Safleoedd posibl

**Isadeiledd**

- Traffyrdd
- Ffyrdd mawr
- Ffyrdd bach
- Rheilffyrdd
- Llwybrau troed
- Ardaloedd trefol

0 1 cilomedr

G

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 100018813 (2010).

© Crown copyright. All rights reserved.
Countryside Council for Wales, 100018813 (2010).

**Ffigur 4: Enghreifftiau o safleoedd sy'n ymgeiswyr**

**Parciau**




Chwith: Parc â llawer o goed, lle ceir lefel isel o reolaeth
Dde: Parc heb unrhyw nodweddion naturiol, a gaiff ei reoli'n ddwys

**Mynwentydd a thir o amgylch eglwysi**

Chwith: Mynwent wedi tyfu'n wyllt ac na chaiff ei rheoli
Dde: Mynwent a gaiff ei rheoli'n dda ac yn ddwys




## Mannau gwyrdd amwynderol

Chwith: Caeau chwarae mawr agored a gaiff eu rheoli'n ddwys
Dde: Lawnt fowlio lai o faint â mynediad cyfyngedig





## Mannau gwyrdd hirgul: nentydd





Chwith: Nant droellog naturiol mewn parcdir coediog
Dde: Ffos ddraenio sydd wedi'i sianelu

Mae'r ddwy enghraifft yn darparu mannau gwyrdd hirgul sy'n cysylltu mannau gwyrdd eraill â'i gilydd ac sy'n llunio coridorau trwy ardaloedd trefol.

## Cam 3: A yw Ardal sy'n Ymgeisydd yn Ardal Naturiol?

***Mathau o fannau gwyrdd***

Nod y broses weithredu gyfan yw hybu'r broses o ddarparu lleoedd **naturiol** sy'n hygyrch i bobl mewn ardaloedd trefol. Mae trefi a dinasoedd yn cynnwys amrywiaeth eang o fannau gwyrdd, o goetiroedd a ffermdir i fannau gwyrdd dynodedig megis parciau a chaeau chwarae, yn ogystal â mannau gwyrdd sy'n perthyn i dir sefydliadau, tir preifat, rhandiroedd, tir diffaith a fu unwaith yn dir diwydiannol, a thir ar hyd rheilffyrdd.

Ni chaiff y profiad o fyd natur ei gyfyngu i'r lleoedd a gaiff eu hystyried yn rhai naturiol yn draddodiadol, megis coetiroedd, oherwydd fe'i ceir hefyd mewn parciau, ardaloedd o gefn gwlad ehangach o gwmpas trefi, a mannau gwyrdd dynodedig eraill. Mae mannau gwyrdd yn arbennig o ddeniadol pan fyddant yn cynnig cyfle i ymwneud â gwahanol weithgareddau, a lle caiff y posibilrwydd o gael profiad o natur 'wyllt' ei integreiddio mewn lleoliad ffurfiol. Weithiau bydd y llystyfiant sydd ar safleoedd wedi ei hau ei hun, ond nid yw hynny'n hanfodol. Mae'r arweinlyfr yn gefnogol iawn i fannau gwyrdd amlswyddogaeth a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda.


Yng ngoleuni hynny mae dull yr arweinlyfr o ddiffinio man gwyrdd naturiol yn ddull cynhwysfawr, ac mae'n cydnabod y ceir llawer o wahanol fathau o fannau gwyrdd lle gellir mwynhau byd natur. Mae hefyd yn cydnabod y ceir continwwm sy'n ymestyn o 'anialwch' i leoedd palmantog a mannau gwyrdd a reolir yn ddwys, a all er hynny gynnwys nodweddion naturiol megis coed aeddfed a waliau sydd dan orchudd o redyn. Deellir mai ystyr '**naturiol**' yma yw rhinwedd arbennig y gall mannau gwyrdd ei gynnig. Yn yr ystyr hwnnw, mae ardaloedd naturiol yn fannau lle mae strwythur y mannau gwyrdd ac ansawdd gwaith rheoli'n uno i gynnal fflora a ffawna amrywiol neu neilltuol na fyddai modd eu gweld fel arall efallai mewn amgylchedd adeiledig. 'Prosesau naturiol' fydd fwyaf amlwg yma, a bydd yr ymwelydd yn mwynhau ymdeimlad neilltuol o le. Mae'r ffigur isod yn amlygu'r broses hon, yn rhan o'r cysyniad sylfaenol o olyniaeth ecolegol, lle mae prosesau naturiol yn disodli'r ecosystem wreiddiol nes cyrraedd cymuned uchafbwyntiol. Yr unig bryd y gall hynny ddigwydd yw pan geir lefel isel o reolaeth.

Mae'r siart yn Ffigur 5 yn esbonio'r ystod o 'naturioldeb' a geir, o arwynebau artiffisial annaturiol, i lefelau o ymyrraeth a rheolaeth sy'n gostwng, i goetiroedd a glaswelltiroedd naturiol iawn lle ceir lefel isel o reolaeth.

**Ffigur 5. Er mwyn adnabod mannau gwyrdd naturiol, caiff y gwahaniaeth mawr ei seilio ar ddwyster yr ymyrraeth, boed yn waith rheoli neu'n fath arall o aflonyddwch.**

**Ymyrraeth**

**Artiffisial**



Ni fyddai ymyrraeth **artiffisial** o ddwys yn cael ei chynnwys yn y categori 'naturiol'
e.e. maes chwarae plant

**Dwys**



Ni fyddai glaswelltir amwynderol a gaiff ei dorri'n aml yn cael ei gynnwys fel rheol os caiff ei reoli'n **ddwys**
e.e. caeau chwarae

**Llai dwys**



Byddai glaswelltiroedd garw sydd wedi'u lled-wella'n cael eu hystyried yn naturiol os cânt eu rheoli'n **llai dwys**
e.e. glaswelltir garw

**Isel**

Byddai tir lle ceir lefel **isel** o reolaeth yn cael ei ystyried yn naturiol
e.e. coetir



**Naturioldeb**

Mae'r arweinlyfr hwn yn darparu diffiniad cyffredinol o "fan gwyrdd naturiol", y mae angen ei ddehongli fesul safle er mwyn penderfynu pa safleoedd sy'n "naturiol". Er mwyn cynorthwyo'r gwaith dehongli hwn, rydym yn awgrymu y gellid ystyried bod man gwyrdd yn naturiol pan fo wedi'i orchuddio'n bennaf gan un o'r strwythurau llystyfiant neu gymysgedd o'r strwythurau llystyfiant yr ymdrinnir â hwy yn y blwch isod. Dangosir enghreifftiau o sut y gall y nodweddion naturiol hyn gael eu troi'n enghreifftiau go iawn o fannau gwyrdd yn Ffigur 6.

**Blwch 6: Nodweddion naturiol mannau gwyrdd:**

1. Coetiroedd a choedlannau lle ceir llwyni sy'n tyfu'n rhydd neu laswelltir a reolir yn llai dwys dan y coed. Coed a chlystyrau o goed lle ceir llwyni sy'n tyfu'n rhydd neu laswelltir helaeth dan y coed.
2. Prysgoed a chorlwyni sy'n tyfu'n rhydd (e.e. rhostir).
3. Glaswelltir garw, glaswelltir wedi'i led-wella, llysiau gwyllt a llysiau collddail tal.
4. Creigiau a phridd moel lle caiff olyniaeth naturiol rwydd hynt i fynd rhagddi (gan gynnwys pridd moel mewn tir diffaith).
5. Dŵr agored a gwlyptiroedd â chyrs, llysiau collddail tal ac ati.
6. Arfordiroedd sydd â nodweddion naturiol megis gwastadeddau llanwol, twyni tywod neu lannau creigiog.

Mae modd dehongli'r diffiniadau hyn mewn sawl ffordd o hyd. O ystyried mor gymhleth yw'r mater, nid yw'r arweiniad hwn yn ceisio darparu meini prawf cyfyngedig ar gyfer naturioldeb, ac nid yw ychwaith yn awgrymu trothwyau diamod ar gyfer gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n naturiol a'r hyn sy'n annaturiol, e.e. yn nhermau'r ganran o orchudd mathau o gynefin a ystyrir yn naturiol, neu'r ganran o rywogaethau brodorol. Yn hytrach, mae'r arweiniad yn cynnig y dylid defnyddio dull cymharu, lle penderfynir ynghylch naturioldeb man gwyrdd neu naturioldeb yr elfennau sydd ynddo drwy ei gymharu â mannau gwyrdd eraill. Isod dangosir casgliad o ffotograffau i awgrymu'r hyn y gellir ei ystyried yn fan gwyrdd naturiol neu'n nodweddion naturiol mewn man gwyrdd. Argymhellwn yn gryf y dylai awdurdod lleol gynhyrchu casgliad o'i ffotograffau ei hun yn sail ar gyfer trafodaeth â grwpiau o fudd-ddeiliaid lleol.

Bydd asesu gwerth naturiol y forlin drefol yn bwysig mewn llawer o ardaloedd trefol yng Nghymru. Mae gwerth traethau trefol fel adnodd hamdden yn amlwg iawn, ond nid yw eu gallu i roi profiad o fyd natur yr un mor amlwg. Gall datblygiadau trefol, ffyrdd, amddiffynfeydd môr, pierau, morgloddiau a phorthladdoedd cyfagos i gyd gael effaith, ac oherwydd hynny mae'n bosibl na fydd llawer o draethau trefol yn addas i'w hystyried yn fannau naturiol dan y safon a nodir yn yr arweinlyfr hwn. Yr eithriadau i hynny fydd y safleoedd sy'n gymwys eisoes a rhannau eithaf agored o draeth, a glustogir efallai gan fathau eraill o fannau gwyrdd, megis parciau neu dwyni (a all fod yn fannau gwyrdd naturiol yn eu rhinwedd eu hunain) a lle gwelir datblygu ysgafn yn unig ar eu cyrion. Gellir gweld enghreifftiau o sut y gellid dehongli 'naturiol' yn Ffigur 6.

Gan fod modd dehongli'r asesiad o naturioldeb mewn sawl ffordd, mae'n hollbwysig bod barn yn cael ei llunio ar sail gwybodaeth y gellir ei hatgynhyrchu a'i rhannu â phob budd-ddeiliad.

Gall arolygon ecolegol, megis gwaith mapio cynefinoedd Cam I, fod yn ffynhonnell ragorol o wybodaeth ar gyfer adnabod man gwyrdd naturiol, neu elfennau naturiol mewn man gwyrdd mwy o faint, ond mae angen eu haddasu i'r cyd-destun trefol lleol. Gallai'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, yn enwedig Cyfrol 5 (*Maritime Communities and the*

*Vegetation of Open Habitats*), fod yn fan cyfeirio defnyddiol hefyd. Gall arolygon defnyddwyr ddarparu gwybodaeth ategol ar gyfer adnabod lleoedd a gaiff eu *hystyried* yn gyffredinol yn rhai naturiol, er na chânt eu cydnabod felly o reidrwydd mewn arolygon ecolegol. Gallai hynny fod yn arbennig o berthnasol i ardaloedd o gefn gwlad ehangach o gwmpas ardaloedd trefol, gweler Ffigur 7; er enghraifft, gall llwybrau troed sy'n arwain i gefn gwlad roi ymdeimlad o fan gwyrdd naturiol i'r defnyddiwr. Mae'r arolygon hyn hefyd yn ffordd bwysig o ddeall yn well anghenion trigolion lleol, y defnydd presennol a wneir o fannau gwyrdd, a'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag eu defnyddio'n awr ac yn y dyfodol. Yn ogystal gall cyfweliadau â phobl leol a grwpiau buddiannau, megis Ymddiriedolaethau Natur lleol, roi gwybodaeth bwysig nad yw ar gael o ffynonellau eraill.

**Enghraifft Ymarferol: Adnabod Mannau Gwyrdd 'Naturiol'**

Bydd y cam hwn yn y broses yn canolbwyntio ar archwilio pob safle sy'n ymgeisydd (ar wahân i'r safleoedd sy'n gymwys eisoes i fod yn safleoedd naturiol) er mwyn penderfynu a ddylent gael eu hystyried yn rhai naturiol ai peidio. Mae'r map isod, Map 2, yn dangos canlyniadau'r broses hon (nodwch, wrth ei gymharu â Map 1, faint o'r safleoedd a oedd yn ymgeiswyr sydd wedi'u heithrio yn ystod y cam hwn). Gallai fod gan y safleoedd a eithriwyd rôl i'w chwarae o hyd, oherwydd maent yn fannau sy'n ymgeiswyr ar gyfer camau i wella'r ddarpariaeth o ran mannau gwyrdd naturiol hygyrch, trwy newidiadau yn y drefn reoli.

Os yw'n briodol, gellir dangos safleoedd hefyd nad ydynt yn bodloni'n llwyr y diffiniad o fan gwyrdd 'naturiol', ond sy'n cynnwys ardaloedd naturiol o bwys mewn brithwaith lle ceir llai o fannau gwyrdd naturiol (e.e. grŵp mawr o goed â glaswelltir garw oddi tanynt, mewn parcdir a gaiff ei reoli'n ehangach).

I grynhoi, canlyniad Cam 3 yw map a rhestr o safleoedd mannau gwyrdd naturiol, yn barod i symud ymlaen i'r cam sy'n ymwneud ag asesu hygyrchedd.

**Ffigur 6: Enghreifftiau o fannau gwyrdd naturiol mewn ardaloedd trefol**


Coetir mewn dinas. Ardal o goed ifanc ac aeddfed, lle ceir llwyni sy'n tyfu'n rhydd neu laswelltir helaeth dan y coed.


Mynwent sy'n dangos ardaloedd o laswelltir garw, glaswelltir wedi'i led-wella, llysiau gwyllt a llysiau collddail tal.


Gwarchodfa lagynau a gwlyptiroedd sy'n dangos ardal â chyrs a llysiau collddail tal.


Ardal lle ceir rhos a phrysgoed sy'n tyfu'n rhydd.


Creigiau a phridd moel lle caiff olyniaeth naturiol rwydd hynt i fynd rhagddi (gan gynnwys pridd moel mewn tir diffaith).

## Ffigur 7: Yr arfordir a chefn gwlad ehangach

### Yr arfordir



Traeth agored â gro a gwastadedd tywod llanwol: gellid ystyried y traeth yn fan naturiol er nad oes llystyfiant yn tyfu'n naturiol yno.



Ni fyddai morlin y caiff ei chymeriad ei bennu gan forgloddiau, amddiffynfeydd a phierau yn cael ei hystyried yn naturiol.


### Cefn gwlad ehangach



Byddai llwybrau troed ag amgylchedd na chaiff ei reoli'n ddwys yn cael eu hystyried yn naturiol.



Fel rheol ni fyddai ffermdir a gaiff ei reoli'n ddwys yn cael ei ystyried yn naturiol.



Mae'r wybodaeth ar y map hwn at ddibenion esbonio'n unig

Map 2:
Mapio'r gwahaniaeth rhwng mannau gwyrdd naturiol ac annaturiol

**Safleoedd sy'n ymgeiswyr**

- Mannau gwyrdd naturiol, gan gynnwys safleoedd sy'n gymwys eisoes
- Mannau gwyrdd annaturiol

**Isadeiledd**

- Traffyrdd
- Ffyrdd mawr
- Ffyrdd bach
- Rheilffyrdd
- Ardaloedd trefol

0 1 cilomedr

G

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 100018813 (2010).

© Crown copyright. All rights reserved.
Countryside Council for Wales, 100018813 (2010).

## Cam 4: A yw Ardal Naturiol yn Hygyrch?


Mae nifer o ffactorau'n cyfrannu at hygyrchedd man gwyrdd, a gallant weithredu gyda'i gilydd mewn ffyrdd cymhleth. Mae hygyrchedd yn cynnwys ystod o sefyllfaoedd, o hygyrchedd gweledol, sef yr hyn y gellir ei weld yn unig, i fynediad hollol agored, lle ceir hawl i symud o gwmpas yn rhydd a chael profiad o'r safle heb unrhyw aflonyddwch. Ceir gwahanol raddau o hygyrchedd, ond er mwyn i safle gael ei gynnwys fel safle 'hygyrch' yn yr arweinlyfr, rhaid bod modd mynd i mewn iddo'n gorfforol.

Wrth wirio hygyrchedd, mae angen penderfynu ynghylch nifer o faterion er mwyn canfod yr amodau yn y fan a'r lle, ac yna asesu lefel yr hygyrchedd sy'n bosibl. At y diben hwn, rydym yn rhannu mynediad yn bum categori (Ffigur 8):

1. **Mynediad Llawn:** Gellir mynd i mewn i'r safle yn ddigyfyngiad.
2. **Mynediad Amodol:** Ceir hawl mynediad sy'n amodol ar un neu ragor o gyfyngiadau neu amodau, neu y mae un neu ragor o gyfyngiadau neu amodau'n effeithio arni. Gall y rheini effeithio ar ansawdd profiad yr ymwelydd o fyd natur. E.e. Mae'n bosib nad oes gan y cyhoedd hawl i gamu oddi ar lwybr sy'n mynd trwy'r safle.
3. **Mynediad Agos:** Nid oes hawl mynediad corfforol, ond gellir cael profiad o'r safle o'i derfyn, lle gallai cyfleoedd fod ar gael i weld a chlywed byd natur yn agos.
4. **Mynediad o Bell:** Nid oes hawl mynediad corfforol ac mae'r profiad agos yn gyfyngedig, ond mae'r safle yn darparu adnodd gwyrdd gweledol gwerthfawr i'r gymuned o nifer o wahanol gyfeiriadau ac o bell.
5. **Dim Mynediad:** Nid oes hawl mynediad corfforol, a chaiff golygfeydd o'r safle eu rhwystro i raddau helaeth.

At ddibenion yr arweinlyfr, deellir mai ystyr 'hygyrch' yw gallu ymwelwyr i gael mynediad corfforol i safle. Golyga hynny fod yn rhaid bod gan safleoedd a gaiff eu hystyried yn hygyrch fynediad **llawn** neu fynediad **amodol**. Ni chaiff mynediad agos ei ystyried yn ddigonol yn ôl yr arweinlyfr, gan nad oes modd o hyd cael mynediad corfforol i'r safle. Dylid adnabod y ffactorau sy'n atal pobl rhag defnyddio safleoedd sydd â mynediad amodol, a lle bo modd dylid cymryd camau i fynd i'r afael â hwy.

**Ffigur 8: Asesu hygyrchedd**



Argymhellir y dylid gwirio hygyrchedd yr holl fannau gwyrdd naturiol, gan gynnwys y rhai y mae ganddynt ddynodiad ffurfiol oherwydd eu gwerth o ran cadwraeth natur. Y rheswm am hynny yw y gallai rhai o’r safleoedd dynodedig fod yn arbennig o sensitif i aflonyddwch a niwed oherwydd mynediad cyhoeddus, ac felly gallai fod yn angenrheidiol cyfyngu ar ymwelwyr, neu hyd yn oed eu hannog i gadw draw. O ystyried y manteision cymdeithasol ac addysgol y mae safleoedd o’r fath yn eu cynnig i amgylchedd trefol, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau mynediad amodol o leiaf.

Tra bydd rhai ffactorau hygyrchedd yn effeithio’n uniongyrchol ar asesiad safle, bydd ffactorau eraill yn effeithio ar ei ddalgylch. Bydd y rhain yn cael eu hystyried mewn dadansoddiad gofodol yn nes ymlaen. Ffactorau ffisegol fydd y rhain, megis nifer y mynedfeydd ac effaith rhwystrau ar fynediad i safleoedd, megis rheilffyrdd, ffyrdd ac afonydd. Trafodir dylanwad yr effeithiau hyn yn nes ymlaen (gweler tudalen 30).

Gellir ystyried mynediad i safleoedd arfordirol yn yr un modd â mynediad i safleoedd eraill. Er enghraifft, gellid ystyried bod sefyll ar bromenâd sy’n edrych dros draeth yn fynediad agos, ond byddai mynediad cyfyngedig oherwydd y llanw yn ffactor sy’n ymwneud â mynediad amodol.

Mae’n bwysig gwirio safleoedd o dro i dro er mwyn canfod pa ddefnydd a wneir o’r tir, oherwydd bydd agweddau’r gymuned leol at fan gwyrdd yn dylanwadu ar b’un a yw’r man gwyrdd yn darparu’n effeithiol ar gyfer anghenion y gymuned. Ni fydd safle naturiol o ansawdd uchel â mynediad rhagorol yn cyflawni ei botensial oni bai bod y gymuned leol yn gwneud defnydd effeithiol ohono. Yn yr un modd, os caiff safle ei ddefnyddio’n helaeth gan rai rhannau o’r gymuned, ond na chaiff ei ddefnyddio bron o gwbl gan rannau eraill, efallai na fydd yn darparu fel y dylai ar gyfer pobl leol. Mae’n bwysig, felly, adnabod a deall y ffactorau cymdeithasol sydd wrth wraidd effeithiau o’r fath, fel y gellir cymryd camau ymarferol i ddatrys problemau o bwys er mwyn sicrhau “mynediad rhwydd a theg i ddigonedd o fannau gwyrdd o ansawdd uchel”, fel y nodir yn strategaeth amgylcheddol Llywodraeth Cymru[5].

### Enghraifft Ymarferol: Adnabod Safleoedd Naturiol Hygyrch

At ddibenion gweithredu’r arweinlyfr, mae’n angenrheidiol cadarnhau a all y cyhoedd fynd i mewn i safle a symud o gwmpas ynddo, yn gyfreithlon ac yn gorfforol.

Mae Map 3 yn dangos yr effaith y gallai’r prawf syml hwn ei chael ar y map mannau gwyrdd, gan fod rhai safleoedd mannau gwyrdd naturiol wedi’u heithrio bellach ar sail hygyrchedd. At ddibenion yr arweinlyfr, yr unig beth y mae angen ei wneud yw gwahaniaethu rhwng safleoedd sy’n gymwys o ran hygyrchedd a’r rhai nad ydynt yn gymwys, a dyna yw sail Map 3. Fodd bynnag, bydd modd dangos yn rhwydd unrhyw wahaniaethau pellach sy’n berthnasol o ran ansawdd, a bydd modd gwneud gwaith mireinio hefyd i ddangos presenoldeb ffactorau unigol sy’n effeithio ar hygyrchedd. Yn nes ymlaen, dangosir bod modd lleoli ffactorau’n ymwneud â mynediad corfforol, megis lleoliad mynedfeydd a rhwystrau o ran teithio, ar y map a bod modd ystyried eu heffeithiau a’u dangos yn awtomatig trwy feddalwedd y System Wybodaeth Ddaearyddol.

I grynhoi, canlyniad Cam 4 yw map a rhestr o safleoedd mannau gwyrdd naturiol sy’n hygyrch i bobl leol a’r gymuned leol.

---

[5] Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, 2006: Canlyniad 27: Ceir mynediad rhwydd a theg i ddigonedd o fannau gwyrdd o ansawdd uchel.



**Ffigur 9: Enghreifftiau o fynediad amodol:** Mae’r ffactorau’n cynnwys, ymhlith eraill,


Fandaliaeth

Ysbwriel





Cyfnodau o fod ar gau



Mae'r wybodaeth ar y map hwn at ddibenion esbonio'n unig

Map 3:
Mapio mannau gwyrdd naturiol hygyrch

**Safleoedd sy'n ymgeiswyr**

- Mannau gwyrdd naturiol hygyrch
- Mannau gwyrdd naturiol anhygyrch
- Mannau gwyrdd annaturiol

**Isadeiledd**

- Traffyrdd
- Ffyrdd mawr
- Rheilffyrdd
- Llwybrau troed
- Ardaloedd trefol
- Ardaloedd trefol

0 1 cilomedr

G

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 100018813 (2010).

© Crown copyright. All rights reserved.
Countryside Council for Wales, 100018813 (2010).

## Cam 5: Dadansoddi'r Ddarpariaeth

Er mwyn dadansoddi'r ddarpariaeth, mae'n hanfodol sefydlu patrwm gofodol mannau gwyrdd naturiol hygyrch a'u dalgylchoedd cysylltiedig, yn ogystal ag adnabod yr ardaloedd lle ceir diffyg darpariaeth.

Er mwyn cyflawni hynny, mae angen rhywfaint o ddata sylfaenol ynghylch y safleoedd:

- Dylai safle gael ei ***leoli*** ar fap priodol.
- Dylai ***terfynau***'r safle gael eu nodi.
- Dylai ***mynedfeydd*** i'r safle gael eu mapio.
- Dylai ***arwynebedd*** y safle gael ei nodi.

Y cam nesaf o safbwynt gweithredu'r model yn llawn yw mapio dalgylchoedd safleoedd, gan osod pob safle mewn hierarchaeth yn ôl maint i ddechrau, er mwyn penderfynu ar ddalgylch priodol y safle fel a ganlyn:

- Yr Haen Gyntaf: safleoedd hyd at 20ha: dalgylch o 300m,
- Yr Ail Haen: safleoedd 20-99ha: dalgylch o 2km,
- Y Drydedd Haen: safleoedd 100-499ha: dalgylch o 5km,
- Y Bedwaredd Haen: safleoedd 500ha neu ragor: dalgylch o 10km.

Wrth ddefnyddio'r haenau hyn, mae'n bwysig nodi y bydd safleoedd mwy o faint yn fannau gwyrdd ar haenau is yr hierarchaeth hefyd. Felly, ar gyfer safle 120ha, dylid defnyddio tri dalgylch: 5km, 2km a 300m.

Y dull gorau o ddangos dalgylchoedd safleoedd yw eu dangos mewn modd graffigol ar fap, yn ddelfrydol gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol. Mae sawl ffordd o wneud hynny:

- creu parth clustogi syml ar sail pellter o gwmpas terfynau'r safle,
- mesur pellter o fynedfeydd safle,
- cyfrifo'r gwir bellter ar hyd prif lwybrau mynediad (dadansoddi rhwydweithiau).


Mae Ffigur 10 yn darparu cymhariaeth feirniadol o'r technegau perthnasol sydd ar gael yng nghyswllt System Wybodaeth Ddaearyddol.

Argymhellir y dylid mapio dalgylchoedd safleoedd ar gyfer pob haen o ddarpariaeth, er mwyn darparu darlun llawn. Fodd bynnag, os na ellir gwneud hynny, gellir gweithredu fesul cam gan ganolbwyntio ar un haen i ddechrau a dadansoddi'n fanylach pan fydd adnoddau'n caniatáu. Os dewisir yr opsiwn hwn, argymhellir y dylid rhoi blaenoriaeth i'r Haen Gyntaf a'r Ail Haen (y safleoedd mwyaf lleol) i ddechrau, gyda'r lleill yn dilyn fel y bo'n ymarferol. Er mwyn asesu cydymffurfiaeth, gellir cyfuno lefel darpariaeth pob haen ar un map, gan ddefnyddio tros-haen System Wybodaeth Ddaearyddol.


Caiff ansawdd y gwaith dadansoddi ei wella trwy ddefnyddio'r ail a'r trydydd opsiwn, ond bydd y gwaith yn mynd yn fwy cymhleth ac yn anos. Os nad yw'n bosibl cynnal mwy na dadansoddiad syml o'r parth clustogi, gellid addasu'r canlyniadau ymhellach er mwyn ystyried rhwystrau sylweddol a mathau eraill o rwystrau nad yw'r dull gweithredu wedi mynd i'r afael â hwy.

**Ffigur 10: Cymharu technegau perthnasol System Wybodaeth Ddaearyddol**

| Technegau System Wybodaeth Ddaearyddol | Disgrifiad | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|---|
| **Clustogi** | Yn gyffredinol, mae clustogi'n cyfeirio at greu parth o led penodol o gwmpas pwynt, llinell neu ardal bolygon. | • Mae'n darparu patrwm gofodol defnyddiol a syml ar gyfer gwaith darparu.<br>• Gellir ei wneud yn gyflym, ac mae'n cynnig yr opsiwn gorau os oes cyfyngiadau amser.<br>• Mae ei symlrwydd yn golygu y gellir ei ddiweddaru'n gyflym. | • Nid yw'n ystyried isadeiledd (e.e. ar hyd llwybrau a ffyrdd). |
| **Cyfrifo pellter llinell o'r naill bwynt i'r llall** | Mae'n cyfrifo'r pellter o bwynt penodol, er enghraifft, o fynedfa man gwyrdd i ysgol. | • Mae'n darparu dadansoddiad cyflym o'r pellter. | • Mae'n darparu dadansoddiad syml yn unig o fynediad. |
| **Dadansoddi rhwydweithiau** | Mae'n integreiddio'r isadeiledd (e.e. ffyrdd, rheilffyrdd, llwybrau troed) â phwyntiau penodol neu ardaloedd o ddiddordeb er mwyn galluogi gwaith pennu llwybrau.<br><br>*Noder: Wrth ddefnyddio'r dull dadansoddi rhwydweithiau, dylai'r pellter clustogi ar gyfer y safleoedd lleiaf, sef **300m**, gael ei ymestyn i **400m**. Mae hynny'n ystyried yr angen i'r cerddwr ddilyn y rhwydwaith ffyrdd a llwybrau troed i gael mynediad i fan gwyrdd, gan groesi strydoedd a mynd o amgylch corneli ac ati.* | • Gall gynnwys ystod o wahanol elfennau sy'n newid, er mwyn darparu efelychiad mwy realistig o bellteroedd ac amserau teithio.<br>• Mae'n golygu bod modd integreiddio'r galw am fannau gwyrdd (gwybodaeth am y boblogaeth a'r ddemograffeg) yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth o ran mannau gwyrdd.<br>• Mae'n arbennig o ddefnyddiol ar lefel leol.<br>• Gellir ei ddefnyddio i ystyried materion megis rheol Naismith.<br>• Mae'n cynnig y dadansoddiad gorau o'r ddarpariaeth o ran mannau gwyrdd. | • Gall gymryd amser ac arbenigedd.<br>• Gallai fod yn anodd diweddaru'r gwaith dadansoddi rhwydweithiau mewn "amser go iawn". |




Mae'r wybodaeth ar y map hwn at ddibenion esbonio'n unig




Mae'r wybodaeth ar y map hwn at ddibenion esbonio'n unig

Erbyn hyn mae modd dadansoddi'r ddarpariaeth o ran *mannau gwyrdd naturiol hygyrch*. Yn gyntaf, dylid cyfrifo'r ddarpariaeth gyffredinol o ran mannau gwyrdd naturiol hygyrch i bob 1000 o bobl, a defnyddio hynny fel canllaw i'r ddarpariaeth gyffredinol. Y cam nesaf yw archwilio ardaloedd sydd fel pe baent yn brin o fannau gwyrdd naturiol hygyrch, a gwneir hynny trwy amlygu'r ardaloedd ar y map sydd y tu allan i ddalgylchoedd y safleoedd a adnabuwyd. Gellir mapio'r ardaloedd hynny lle ceir diffyg darpariaeth, a gellir nodi mannau lle nad yw'r boblogaeth yn cael gwasanaeth da. Fel hyn, bydd gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau adnodd gweledol defnyddiol i gynorthwyo'r broses o osod blaenoriaethau a'u rhannu â chymunedau lleol.

Dylid cofio bod gan yr arweinlyfr bedair haen o ddarpariaeth. Felly, gallai lleoliad sy'n cael gwasanaeth boddhaol ar dair haen fod yn dioddef o ddiffyg darpariaeth ar y bedwaredd haen.

Mae mapio ardaloedd diffygiol yn ffordd hollol ofodol o ddangos ble y ceir diffyg darpariaeth o ran mannau gwyrdd naturiol hygyrch. Yn ddelfrydol, byddai'r awdurdod lleol yn adnabod pob ardal lle ceir diffyg darpariaeth ac yn cymryd camau i unioni hynny. Fodd bynnag, cydnabyddir mai anaml iawn y bydd hynny'n bosibl mewn gwirionedd, ac felly caiff awdurdodau lleol eu hannog i ddefnyddio'r dadansoddiad i benderfynu ar ymateb lleol priodol yng ngoleuni'r adnoddau sydd ar gael a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Wrth ymdrin ag ardaloedd lle ceir diffyg darpariaeth, gallai awdurdodau lleol ystyried yr opsiynau canlynol ar gyfer blaenoriaethu mwy o ddarpariaeth leol:

- ardaloedd trwchus eu poblogaeth;
- ardaloedd lle ceir mynegai amddifadedd uchel (megis ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf);
- ardaloedd lle mae lefel y ddarpariaeth gyffredinol, o ran mannau gwyrdd o bob math, yn isel;
- ardaloedd lle mae gallu cymunedau i symud o le i le yn gyfyngedig;
- ardaloedd sy'n agos i ysgolion;
- ardaloedd lle mae modd creu rhwydweithiau cydlynol o fannau gwyrdd;
- gellid rhoi mwy o flaenoriaeth i ardaloedd trefol dwys iawn nag i ardaloedd a orchuddir i raddau helaeth gan erddi preifat.

Mae modd cyflawni dadansoddiadau ar raddfa lai na'r awdurdod lleol cyfan, er enghraifft, ar raddfa wardiau etholiadol. Os ceisir gwneud hynny, dylid talu sylw i symudiadau rheolaidd y boblogaeth yn ogystal â phatrymau preswyl. Er enghraifft, gallai fod gan ganol rhai trefi boblogaeth barhaol sy'n isel iawn, ond poblogaeth dros dro sy'n uchel yn ystod oriau gwaith, a gallai fod angen darparu mannau gwyrdd naturiol hygyrch ar gyfer y boblogaeth honno hefyd.

### Enghraifft Ymarferol: Dadansoddi'r Ddarpariaeth

Bellach, mae'n angenrheidiol pennu maint y lleiniau o dir y nodwyd eu bod yn hygyrch ac yn naturiol yn ystod camau blaenorol y gwaith. Mae defnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol yn golygu ei bod yn hawdd pennu arwynebedd safleoedd, gan fod maint y llain o dir naill ai'n rhan annatod o'r data neu'n hawdd ei gyfrifo o fewn y system. O'r sail hon, mater syml wedyn yw dosbarthu safleoedd i'r haenau a nodwyd uchod, a ddefnyddir i bennu maint y dalgylch priodol sydd i'w ddefnyddio.

Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn gellir mapio dalgylchoedd y mannau gwyrdd naturiol hygyrch a adnabuwyd, er mwyn dechrau creu darlun gofodol o'r ddarpariaeth. Ym Map 4, cafodd dalgylchoedd eu hasesu trwy ddefnyddio parthau clustogi'n seiliedig ar bellter, gan bennu radiws y parth clustogi yn ôl maint y safle, neu'i gategori o ran haen. Yn yr enghraifft hon, er mwyn gallu dehongli'r canlyniadau'n hawdd yn weledol, dwy haen yn unig a ystyriwyd. Sylwer bod rhwystrau amlwg i fynediad, megis rheilffyrdd ac afonydd, na chânt eu hystyried yn awtomatig wrth ddefnyddio'r dull hwn. Mae Map 5 wedi defnyddio gwaith dadansoddi rhwydweithiau i helpu i adnabod y parthau y dylid eu heithrio (gellir tynnu'r rhain oddi ar y map yn awr) a chyfrifo'r dalgylchoedd ar sail y pellter cerdded gwirioneddol.

Mae gan y safleoedd mwy o faint sawl dalgylch, a gall safle sy'n ymddangos yn fawr gael parth clustogi o haen is oherwydd ei fod yn cynnwys canran isel yn unig o orchudd naturiol. Mae hyd yn oed y map cymharol syml hwn yn dangos patrymau sy'n rhoi gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol iawn i gynllunwyr a'r cyhoedd. Gellir mireinio hwn hyd yn oed ymhellach trwy fapio parthau hygyrchedd er mwyn ystyried mynedfeydd safleoedd, a thrwy wneud gwaith dadansoddi rhwydweithiau mewn perthynas â'r llwybrau sy'n arwain atynt. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon sydd o ansawdd uwch yn gofyn am ragor o amser ac arbenigedd.

Os oes data ynghylch mynedfeydd safleoedd ar gael, gellir cyfrifo parthau clustogi, sy'n seiliedig ar bellter, o'r mynedfeydd hynny er mwyn creu darlun ychydig yn fwy cynrychiadol. Fodd bynnag, dylid nodi bod anfanteision cyffredinol y dull syml, sef pennu parth clustogi sy'n seiliedig ar bellter, yn dal yn berthnasol. Os yw'r mynedfeydd yn hysbys, ac os gellir eu hychwanegu at gronfa ddata'r System Wybodaeth Ddaearyddol, argymhellir y dylid defnyddio dull dadansoddi rhwydweithiau er mwyn cael y darlun mwyaf cynrychiadol o ddalgylchoedd gwirioneddol safleoedd. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd defnyddio'r dull hwn yn gofyn am ragor o amser ac arbenigedd.

Mae Map 5 yn dangos effaith defnyddio'r dull dadansoddi rhwydweithiau ar faint y dalgylchoedd yn ein henghraifft ddamcaniaethol.

Yn ôl y model, mae darpariaeth yr ardaloedd hynny nad ydynt yn perthyn i ddalgylch safle yn ddiffygiol. Gellir mapio'r ardaloedd hynny'n rhwydd, ac maent yn ddangosyddion allweddol ar gyfer parthau yn yr ardal drefol lle gallai mannau gwyrdd lleol fod yn brin, ac a allai, felly, gael blaenoriaeth ar gyfer camau i wella'r ddarpariaeth. Yn yr ardal drefol ddamcaniaethol hon, mae Map 4 a Map 5 yn dangos y gallai rhannau o'r ardal drefol fod yn dioddef o ddiffyg darpariaeth, yn enwedig ar lefel yr Haen Gyntaf.

Mae cymharu dosbarthiad ardaloedd diffygiol â data'r cyfrifiad diwethaf o'r boblogaeth yn ei gwneud yn bosibl targedu polisi at ardaloedd trwchus eu poblogaeth. Gellir cael data'r cyfrifiad trwy fynd i: http://www.statistics.gov.uk/hub/index.html. Drwy ddefnyddio setiau data eraill, megis mynegeion amddifadedd, byddai'n bosibl hefyd ychwanegu gwybodaeth bellach a allai helpu i flaenoriaethu gwahanol fannau gwyrdd a oedd yn ymgeiswyr yn y rhestr wreiddiol, er mwyn eu gwneud yn hygyrch a/neu'n naturiol fel y bo'n briodol.

I grynhoi, canlyniad Cam 5 yw map a rhestr o ddalgylchoedd mannau gwyrdd naturiol hygyrch, a thrwy hynny hefyd, ardaloedd lle ceir diffyg darpariaeth ddigonol.


## Cam 6: Datblygu'r Ymateb o ran Polisi a Rheolaeth

Mater i awdurdodau lleol yw pennu ymatebion lleol i ardaloedd lle mae lefel y ddarpariaeth yn isel. Cydnabyddir y bydd y cyfleoedd i wneud cynnydd realistig, o'r sefyllfa gyfredol a nodwyd tuag at sefyllfa'r model, yn dibynnu ar ystod o ffactorau sy'n unigryw i bob ardal awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Cefn Gwlad o'r farn ei bod yn arfer da i awdurdodau lleol gyflawni'r camau canlynol:

- symud tuag at weithredu egwyddorion y model yn llawn;
- cynnal a chyhoeddi ystadegau a mapiau sy'n dangos lefelau'r ddarpariaeth;
- gosod targedau lleol priodol ar gyfer y ddarpariaeth;
- cymryd camau priodol i wella lefelau'r ddarpariaeth mewn ardaloedd diffygiol er mwyn cyrraedd y targedau a fabwysiadwyd.

Yn hynny o beth, arfer da fyddai polisi a ddatblygir gan sicrhau cydbwysedd â'r ystod lawn o flaenoriaethau lleol ar gyfer yr amgylchedd, y gymdeithas a datblygu. Y dull delfrydol o weithredu polisi fyddai trwy *Strategaeth Mannau Gwyrdd* leol a fyddai'n egluro canlyniadau gweithredu'r model a'r ymateb iddo o ran polisi, mewn modd a fyddai'n hollol integredig â meysydd polisi eraill, megis y rhai ar gyfer parciau trefol ffurfiol a chaeau chwarae. Gallai'r strategaeth fod yn ddogfen ar wahân, ond gallai hefyd fod yn set gydlynol o egwyddorion a nodir mewn adnodd polisi priodol arall. Yn ei thro, dylai'r Strategaeth Mannau Gwyrdd lywio dogfennau polisi eraill, megis y Cynllun Datblygu Lleol, Mentrau Cymunedau yn Gyntaf, strategaethau cadwraeth natur a'r cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol (gweler Ffigur 11) a dylai'r dogfennau polisi hynny lywio'r Strategaeth Mannau Gwyrdd.

**Ffigur 11: Rôl Strategaeth Mannau Gwyrdd**



***Adnoddau sydd ar gael: y system gynllunio***

Gellir defnyddio'r system gynllunio mewn sawl ffordd i hybu'r gwaith o gyflawni amcanion ar gyfer darparu mannau gwyrdd naturiol:

- Gellir defnyddio polisi cynllunio er mwyn adnabod yr elfennau allweddol sy'n perthyn i'r adnodd mannau gwyrdd strategol a'i amddiffyn yn effeithiol, yn rhan o rwydwaith mannau gwyrdd efallai.
- Mae canllawiau cynllunio atodol yn adlewyrchu blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer darparu mannau gwyrdd, sy'n gysylltiedig â rhai dosbarthiadau datblygu pwysig. Caiff y canllawiau cynllunio atodol perthnasol a chyfredol eu cynnwys i raddau helaeth yn TAN 16 (Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored), er bod TAN 5 (Cynllunio a Chadwraeth Natur) hefyd yn cynorthwyo i ddarparu mannau gwyrdd o safbwynt bioamrywiaeth, ac mae TAN 14 (Cynllunio'r Arfordir) yn ymdrin yn benodol â materion sy'n ymwneud â chynllunio'r arfordir.
- Gellir gwneud defnydd creadigol o friffiau datblygu i egluro gofynion o ran mannau gwyrdd yng nghyswllt safleoedd datblygu penodol, boed yn ofyniad i ddatblygu man gwyrdd newydd o fath arbennig ar safle, neu'n ofyniad i gadw man gwyrdd o ansawdd uchel yn yr ardal ddatblygu (a chadw neu ddatblygu mynediad iddo).

Gellir defnyddio cytundebau Adran 106 i sicrhau cyllid trwy strategaethau mannau agored sy'n gysylltiedig â TAN 16. Gellir defnyddio cytundebau o'r fath i sicrhau bod datblygwyr yn cyfrannu at fannau gwyrdd hygyrch mewn datblygiadau newydd (datblygiadau sy'n cynnwys hyd at 19 annedd fel arfer) fel bod elfennau mannau gwyrdd yn cael eu cynnwys mewn datblygiad neu bod darpariaeth arall yn cael ei chynnig i wneud iawn am golli man gwyrdd. Mae'r cyfleoedd i ddefnyddio cytundebau Adran 106 wedi ehangu'n sylweddol, gan fod yr arweinlyfr hwn wedi darparu tystiolaeth i gysylltu datblygiadau â mannau gwyrdd 500ha sydd o fewn pellter o 10km. Er enghraifft, gallai datblygwr ddarparu ar gyfer mynediad neu welliannau i fan gwyrdd megis Parc Gwledig.

***Adnoddau sydd ar gael: dulliau rheoli***

Ceir tair ffordd allweddol o ddefnyddio dulliau rheoli i hybu'r broses o weithredu'r model:

- Gellir cynllunio rheolaeth yn strategol, e.e. trwy strategaeth mannau gwyrdd, er mwyn adnabod blaenoriaethau gofodol a nodi targedau ar gyfer camau gweithredu.
- Gellir cynllunio rheolaeth yn fanwl ar gyfer safleoedd unigol, gan nodi prif ddiben(ion) man gwyrdd ac amcanion ar gyfer newid cymeriad ardaloedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o'r naill fath i'r llall. Fel hyn, er enghraifft, gellid newid ardal o laswelltir amwynderol a ddefnyddir yn anaml yn ardal naturiol, trwy waith rheoli a gynllunnir. Mae arweiniad ar reoli tirwedd at y diben hwn y tu hwnt i gwmpas y ddogfen hon, ond rhestrir rhai cyhoeddiadau defnyddiol am y pwnc yn y llyfryddiaeth.
- Gallai'r awdurdod lleol fynd at dirfeddianwyr preifat, neu sefydliadau sy'n berchen ar dir, i ddatblygu cytundebau rheoli ar gyfer mannau gwyrdd sy'n arbennig o werthfawr. Fel hyn, gellid sicrhau bod tir yn hygyrch i'r cyhoedd a gellid cytuno ar safonau ar gyfer ansawdd gwaith cynnal a chadw.

Gellir atgyfnerthu dulliau rheoli trwy ddefnyddio dynodiadau lleol, megis Gwarchodfeydd Natur Lleol, a safonau cenedlaethol ar gyfer ansawdd mannau gwyrdd, megis Gwobrau'r Faner Werdd, er mwyn helpu i gynnal

hygrededd safleoedd a gaiff eu cynnwys yn y strategaeth mannau gwyrdd, a chyfrannu at strategaethau rheoli yn y dyfodol.

### *Gosod Blaenoriaethau Gweithredu*

Ni fydd cynllunio'r cymysgedd cywir o gamau gweithredu i ymateb i'r asesiad o fannau gwyrdd naturiol hygyrch o anghenraid yn syml. Mae nifer o wahanol ddulliau gweithredu ar gael, a gall rhai fod yn anos eu defnyddio nag eraill. Gallai'r rhesymau am hynny gynnwys cyfyngiadau o ran adnoddau neu gymhlethdod gweinyddol. Dylai cynllun gweithredu gael ei seilio bob amser ar yr asesiad lleol o'r adnodd mannau gwyrdd, a dylai nodau, amcanion a thargedau'r cynllun fod yn realistig. I gyflawni hynny, gallai fod yn briodol gweithio mewn hierarchaeth o flaenoriaethau gofodol a blaenoriaethau o ran gweithredu, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar y blaenoriaethau uchaf a'r camau sy'n esgor ar yr effaith fwyaf am y buddsoddiad a wnaed.

- **Blaenoriaeth Ofodol** – Gellid rhoi'r flaenoriaeth hon i gamau gweithredu sy'n ymdrin ag ardaloedd diffygiol, neu flaenoriaethau eraill sy'n ymwneud â mannau gwyrdd, megis gwella coridorau gwyrdd mewn ardal drefol;
- **Blaenoriaeth o ran Gweithredu** – Dylid rhoi'r flaenoriaeth hon i gamau gweithredu sy'n debygol o fod hawsaf eu gweithredu ac sy'n debygol o sicrhau'r budd mwyaf am y cyfraniad lleiaf o ran adnoddau. Awgrymir y bydd hynny'n gyffredinol fel a ganlyn:
    - **gweithredu i wella hygyrchedd** i safleoedd trwy greu llwybrau troed newydd neu wella'r rhai sy'n bodoli eisoes, darparu mynedfeydd ychwanegol, cael gwared â rhwystrau i fynediad, megis sbwriel a fandaliaeth, darparu isadeiledd syml oddi ar y safle er mwyn goresgyn rhwystrau i fynediad, megis ffyrdd, afonydd a rheilffyrdd, neu hwyluso mynediad i safleoedd preifat trwy drafod cytundebau rheoli â thirfeddianwyr;
    - **gweithredu i reoli mannau gwyrdd presennol er mwyn eu newid**, trwy adolygu safleoedd sy'n eiddo i'r awdurdod lleol er mwyn gweld a oes cyfleoedd i wneud ardaloedd o fewn safleoedd presennol yn 'naturiol' drwy gamau rheoli;
    - **gweithredu i greu mannau gwyrdd naturiol hygyrch newydd** trwy'r system gynllunio, gyda chymorth adnoddau megis canllawiau cynllunio atodol, briffiau datblygu a chytundebau Adran 106. Gallai'r system ar gyfer cynllunio datblygu fod yn adnodd pwerus i awdurdod lleol, a gellid cyflawni llawer trwy ei defnyddio'n briodol;
- **Blaenoriaeth Arbennig** - gallai blaenoriaeth arbennig fod yn berthnasol i raglenni gweithredu sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau trawsbynciol eraill, megis mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol, trwy sicrhau bod modd i bobl anabl, menywod, lleiafrifoedd ethnig a phlant wneud mwy o ddefnydd o fannau gwyrdd naturiol hygyrch. Gellid cymryd camau syml i gyflawni hynny, er enghraifft, trwy gynnwys llwybrau igam-ogam a allai reoli graddiant ar gyfer pobl hŷn a defnyddwyr cadair olwyn.

Bydd parhau i ymgynghori â'r gymuned yn ystod y cam hwn yn bwysig, o safbwynt sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i gymunedau lleol a grwpiau budd-ddeiliaid, a sicrhau eu bod yn parhau'n rhan o'r broses; cynyddu 'perchnogaeth' y gymuned leol ar safleoedd lleol; a sicrhau bod gwaith rheoli a chynnal a chadw yn y dyfodol yn broses fwy effeithlon ac effeithiol.

**Blwch 7: Y Safon Genedlaethol ar gyfer Parciau a Mannau Gwyrdd**

Cynllun Gwobrau'r Faner Werdd yw'r safon genedlaethol sy'n feincnod ar gyfer parciau a mannau gwyrdd yng Nghymru a Lloegr. Caiff y safon uchel ei phennu gan wyth maen prawf allweddol, sef:

- Lle croesawgar
- Lle iach, saff a diogel
- Lle glân a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda
- Cynaliadwyedd
- Cadwraeth a threftadaeth
- Cynnwys y gymuned
- Marchnata
- Rheoli.

Lansiwyd y cynllun yn 1996 i gydnabod a gwobrwyo'r mannau gwyrdd gorau yn y wlad. Rhoddwyd y nifer uchaf erioed o wobrau yn 2009/2010, ac ar hyn o bryd mae dros 1000 o barciau a mannau gwyrdd yn arddangos Baner Werdd neu Benwn Gwyrdd yng Nghymru a Lloegr (www.greenflagaward.org.uk).

**Astudiaeth achos: Canolfan Adnoddau Llanidloes**

Mae gardd Canolfan Adnoddau Llanidloes wedi ennill un o Wobrau'r Faner Werdd. Mae'n ardd gyfeillgar sy'n cynnwys cynefinoedd diogel i nifer amrywiol o rywogaethau bywyd gwyllt brodorol, a man tawel i fwyta, eistedd, gweithio neu gyfarfod ynddo. Cafodd yr ardd ei chreu a chaiff ei chynnal a'i chadw bron yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, ac oherwydd hynny mae hefyd yn cefnogi rhyngweithio a chydlyniant cymdeithasol, a gellir ystyried ei bod yn fan gwyrdd amlswyddogaeth.

**Ffigur 12: Enghreifftiau o Gamau Gweithredu i Gynyddu'r Ddarpariaeth**

Isod ceir enghreifftiau o'r amryw ffyrdd y gellid cynyddu nifer y mannau gwyrdd naturiol hygyrch a geir.





Mae modd ychwanegu nodweddion naturiol at nodweddion hirgul megis rheilffyrdd segur, afonydd a choridorau camlesi, a gellir eu defnyddio i gysylltu rhwydweithiau mannau gwyrdd â'i gilydd.





Gall plannu coed wella naws 'naturiol' man gwyrdd, tra gall llwybrau troed o safon a chyfleusterau eraill wella hygyrchedd.



Gellir creu mannau gwyrdd naturiol hygyrch newydd ar y cyd â phrosiectau datblygu mawr megis parciau busnes.

**Mesurau enghreifftiol ychwanegol i wella'r ddarpariaeth o ran mannau gwyrdd ac ansawdd mannau gwyrdd mewn ardaloedd sy'n gyndyn o newid**

Mewn llawer o ardaloedd trefol, gallai fod parthau sydd heb fynediad i fannau gwyrdd naturiol, ac nad yw gwelliannau o bwys yn bosibl ar eu cyfer yn realistig. Yn yr ardaloedd hynny gellir gwella mannau bach hyd yn oed, trwy ddefnyddio technegau sy'n cyflwyno rhywfaint o wyrddni i'r cyd-destun trefol, er enghraifft:

- plannu coed ar hyd strydoedd;
- gwyrddu toeau, muriau a strydoedd;
- datblygu mannau gwyrdd o safon mewn ardaloedd preswyl;
- sicrhau cadwraeth greadigol ar dir ysgolion ac ar safleoedd diwydiannol.

Efallai na fydd y dulliau hyn yn gwella lefel y ddarpariaeth o ran mannau gwyrdd naturiol, ond gallent gyfrannu at wella'r amgylchedd trefol a gwella ansawdd bywyd yn y tymor byr. Gallent annog rhyngweithio yn y gymuned hefyd, a gwella ymdeimlad o gymuned trwy roi cyfle i bobl leol gymryd rhan. Yn y tymor hwy, dylid ceisio cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth ychwanegol fwy sylweddol o ran mannau gwyrdd.

Mae'r Prosiect Strydoedd Gwyrdd yn enghraifft sy'n dangos sut y gellir cyflwyno strwythurau gwyrdd i amgylcheddau trefol: www.redroseforest.co.uk/web/content/view/43/143/

**Monitro:**
Dylid mynd ati'n rheolaidd i fonitro'r ddarpariaeth o ran mannau gwyrdd naturiol hygyrch, a'r cynnydd a wneir o safbwynt gweithredu'r safonau. Argymhellwn y dylid cysylltu gwaith monitro â chylch adolygu'r Cynllun Datblygu Unedol.

**Ffigur 13: Mesurau enghreifftiol ychwanegol i wella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd sy'n gyndyn o newid**



Gwyrddu to



Gwyrddu stryd



Cadwraeth greadigol ar dir ysgol

Lluniau trwy ganiatâd [www.grassroofcompany.co.uk](http://www.grassroofcompany.co.uk)

**Enghraifft Ymarferol: Cynllunio Camau i Ymateb i Asesiad o'r Ddarpariaeth**

Dangoswyd bod gan yr ardal drefol ddamcaniaethol barthau sylweddol lle ceir diffyg darpariaeth o ran mannau gwyrdd naturiol hygyrch. Wrth ystyried sut i ymdrin â'r rhain, mae'n angenrheidiol yn gyntaf gofyn nifer o gwestiynau am yr adnodd mannau gwyrdd sy'n bodoli eisoes.

- **A oes mannau gwyrdd naturiol sy'n bodoli eisoes, y mae eu hygyrchedd yn gyfyngedig?** Os felly, gallai fod modd gwella eu hygyrchedd, efallai trwy adeiladu mynedfeydd ychwanegol o gwmpas terfyn y safle, lleihau'r effaith a gaiff rhwystrau i fynediad corfforol (e.e. trwy adeiladu pompren dros ffordd, afon neu reilffordd a allai gadw ymwelwyr draw fel arall) neu drafod cytundeb rheoli priodol â thirfeddiannwr preifat neu sefydliad sy'n berchen ar dir, er mwyn hwyluso mynediad i ymwelwyr;

- **A oes mannau gwyrdd sy'n bodoli eisoes, lle ceir diffyg ardaloedd naturiol neu sy'n cynnwys ardaloedd naturiol bach y gellid eu hehangu?** Os felly, gallai fod modd newid trefniadau rheoli rhannau o'r safleoedd hynny er mwyn creu ardaloedd 'naturiol' sy'n ddigon mawr i fod o bwys (gweler Map 6);

- **A oes potensial i greu man gwyrdd naturiol hygyrch newydd trwy waith datblygu?** Os felly, gallai'r awdurdod lleol weithio i hwyluso hynny trwy gynhyrchu canllawiau cynllunio atodol a briffiau datblygu ar gyfer safleoedd datblygu penodol, ac yna gwneud defnydd gweithredol o gytundebau Adran 106 i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir.

Fel hyn, gellir adnabod ystod o gamau gweithredu posibl, gan gychwyn â gwelliannau eithaf syml i fynediad a symud ymlaen at nodau mwy cymhleth a thymor hir ar gyfer creu *mannau gwyrdd naturiol hygyrch* newydd ar y cyd â'r system ar gyfer rheoli datblygu. Trwy ddefnyddio hynny ynghyd â blaenoriaethau gofodol penodol (megis ardaloedd diffygiol neu rwydweithiau mannau gwyrdd) wrth gynllunio camau gweithredu ar gyfer y dyfodol, gellir gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau prin i sicrhau'r canlyniadau ymarferol gorau. Gellir gweld mesurau enghreifftiol ychwanegol yn Ffigur 12.

I grynhoi, canlyniad Cam 6 yw strategaeth reoli ar gyfer mannau gwyrdd naturiol hygyrch, a gaiff ei hintegreiddio'n llawn ym mhrosesau cynllunio a datblygu'r awdurdod lleol a'i chefnogi gan y cymunedau lleol dan sylw, ac sy'n cyfrannu at iechyd a lles y boblogaeth leol.



Mae'r wybodaeth ar y map hwn at ddibenion esboniо'n unig

Map 6:
Opsiynau i wella'r ddarpariaeth o ran mannau gwyrdd naturiol

**Safleoedd newydd posibl**

- Newid mannau gwyrdd sy'n bodoli eisoes
- Ardaloedd hygyrch newydd
- Creu mynediad newydd

**Mannau gwyrdd naturiol hygyrch**

- Yr Haen Gyntaf <20ha
- Yr Ail Haen >20ha

**Dalgylchoedd**

- Yn bodloni'r Haen Gyntaf a'r Ail Haen
- Yn bodloni'r Ail Haen

**Isadeiledd**


- Traffyrdd
- Ffyrdd mawr
- Ffyrdd bach
- Rheilffyrdd
- Llwybrau troed

0 1 cilomedr

G

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 100018813 (2010).

© Crown copyright. All rights reserved.
Countryside Council for Wales, 100018813 (2010).




Mae'r wybodaeth ar y map hwn at ddibenion esboniad'n unig

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 100018813 (2010).

© Crown copyright. All rights reserved.
Countryside Council for Wales, 100018813 (2010).

## Casgliad

Mae'r arweiniad hwn wedi cyflwyno i awdurdodau lleol ddull ymarferol o weithredu'r Arweinlyfr Mannau Gwyrdd, er mwyn darparu mannau gwyrdd naturiol hygyrch mewn trefi a dinasoedd. Nid oes angen i'r broses arwain at ofynion beichus ar staff ac adnoddau technegol, a gall roi cefnogaeth ragorol i'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch arferion rheoli a pholisi ar gyfer y dyfodol, mewn modd sy'n weladwy iawn ac yn hawdd ei ddeall.

### *Pwysigrwydd Rheoli Mannau Gwyrdd yn Greadigol*

Mae'r arweinlyfr yn ddull o hybu byd natur er boddhad y sawl sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Caiff ardaloedd naturiol eu nodweddu'n bennaf gan reolaeth nad yw'n ddwys, ond ni ddylid tybio bod darparu ar gyfer ardaloedd naturiol yn rheswm i esgeuluso gwaith rheoli mannau gwyrdd sy'n bodoli eisoes. Mae ar fannau gwyrdd naturiol angen ymrwymiad tymor hir i reolaeth fedrus, ac mae gan reolwyr mannau gwyrdd rôl hanfodol i'w chwarae o safbwynt datblygu potensial naturiol y safleoedd sydd yn eu gofal, ac o safbwynt creu adnodd mannau gwyrdd sy'n wirioneddol *amlswyddogaeth* ac sydd o ansawdd uchel er lles cymunedau lleol.

### *Manteision Cynllunio Mannau Gwyrdd yn Gyfannol*

Mae'r arweinlyfr yn awgrymu safonau ar gyfer darparu mannau gwyrdd naturiol, y gellir mesur perfformiad ardaloedd trefol yn eu herbyn. Fodd bynnag, nid yw mannau gwyrdd naturiol hygyrch ond yn rhan o'r adnodd cyffredinol o ran mannau gwyrdd trefol, ac yn aml maent yn perthyn yn agos i fathau eraill o fannau gwyrdd ac yn eu hategu.

Mae'r arweiniad hwn eisoes wedi awgrymu y dylid gosod gwaith cynllunio a rheoli mannau gwyrdd naturiol hygyrch yng nghyd-destun strategaeth ehangach ar gyfer mannau gwyrdd trefol. Yn y dyfodol, er mwyn gwneud trefi a dinasoedd yn fwy cynaliadwy, gallai fod yn angenrheidiol mabwysiadu dulliau mwy cyfannol fyth, gan gynnwys gwaith addasu a lliniaru sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae ffynonellau newydd o ddata'n cael eu datblygu, a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol. Mae ffotograffau rhagorol o'r awyr ar gael erbyn hyn mewn fformat digidol fel prif ffynhonnell o wybodaeth. Gellir defnyddio cynnyrch yr Arolwg Ordnans, megis MasterMap, fel mapiau sylfaenol ar gyfer y rhestr o fannau gwyrdd. LANDMAP yw System Wybodaeth Ddaearyddol y Cyngor Cefn Gwlad, sy'n cofnodi ac yn darparu gwybodaeth am briodweddau tirwedd, ac mae gan y system botensial mawr i fod yn sail gyfunol i wybodaeth ofodol ar gyfer cynllunio mannau gwyrdd, pan gaiff ei hymestyn i ardaloedd trefol.

### *Cefnogaeth a Chyngor ar gyfer Defnyddwyr yr Arweiniad hwn*

Mae'r arweiniad hwn yn darparu trafodaeth fer am yr Arweinlyfr Mannau Gwyrdd, ac yn darparu crynodeb ohono a dulliau o'i weithredu. Nid yw'n llawlyfr technegol cynhwysfawr, ac o dro i dro gall problemau ymarferol manwl godi y gallai fod angen i awdurdodau lleol geisio cyngor penodol er mwyn eu datrys. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi ymrwymo i barhau i gefnogi'r arweinlyfr a'r sawl sy'n ei ddefnyddio, a gellid cynhyrchu ystod o ddeunyddiau gwybodaeth at y diben hwn. Gellid cynnal gweithdai hyfforddi hefyd er mwyn rhoi cefnogaeth fanwl i'r broses weithredu. Yn ogystal, bydd cyngor ar gael gan staff rhwydwaith y Cyngor Cefn Gwlad o dimau lleol, a chaiff eu manylion cyswllt eu cynnwys isod.

## Llyfryddiaeth

Mae'r llyfryddiaeth hon yn cyflwyno sampl o ddeunydd cefndirol pwysig ynghyd ag arweiniad ymarferol defnyddiol i'r sawl sy'n ceisio gweithio gyda'r model Safonau ar gyfer Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch. Ni fwriedir iddi fod yn llyfryddiaeth gyflawn, ac mae llawer mwy o ddeunyddiau cyfeirio defnyddiol ar gael.

Baines, C. a Smart, J., 1991. *A Guide to Habitat Creation*, Ecology Handbook No. 2, London Ecology Unit, London

Barker, G., 1997. *A framework for the future: green networks with multiple uses in and around towns and cities*, Adroddiad Ymchwil Rhif 256 English Nature, English Nature, Peterborough

Bird, W., 2004. *Can Green Space and Biodiversity Increase levels of Physical Activity.* Adroddiad ar gyfer y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

CABE, 2004. *The Value of Public Space. How high quality parks and public spaces create economic, social and environmental value.* London

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2001. The LANDMAP Information System: Landmap Method. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor. Heb ei gyhoeddi

Croucher, K., Myers, L. a Bretherton, J., 2007. *The links between greenspace and health: a critical literature review:* Adroddiad Ymchwil Greenspace Scotland. Sterling

Yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DTLR), 2002. Green Spaces, Better Places, Final report of The Urban Green Spaces Taskforce. DTLR, London

DoE, 1996. *Greening the City; a guide to good practice*, HMSO, Norwich

Emery, M., 1986. *Promoting Nature in Cities and Towns: a practical guide*, Croom Helm, London

English Nature, 1996. *A Space for Nature*, English Nature, Peterborough

Harrison, C., Burgess, J., Millward, A. a Dawe, G., 1995. *Accessible natural greenspace in towns and cities: A review of appropriate size and distance criteria*, Adroddiad Ymchwil Rhif 153 English Nature, English Nature, Peterborough

Johnston, J., 1990. *Nature Areas for City People*, Ecology Handbook No. 14, London Ecology Unit, London

Kit Campbell Associates, 2001. *Rethinking Open Space. Open Space Provision and Management: A Way Forward*, Scottish Executive Central Research Unit, Edinburgh

Land Use Consultants for Natural England, 2008. *Understanding the relevance and application of the Access to Natural Green Space Standard*. London 2008

Natural England, 2009. Green Infrastructure Guide, Peterbourgh

O'Brien, L., 2005. *Trees and woodlands, Nature's health service*. Forest Research. Surrey

OPENspace Research Centre, Edinburgh, 2008. *Review of Evidence – Participation in Outdoor Recreation by WAG Priority Groups*, Edinburgh College of Art and Heriot-Watt University

Royal Town Planning Institute (RTPI), 1999. *Planning for Biodiversity. Good Practice Guide*. London

Stubbs, M., 2008. Natural Green Space and Planning Policy: Devising a Model for its Delivery in Regional Spatial Strategies, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Taylor, J.H. *Woodlands for Health and Wellbeing: Why and How*. Ar ran Partneriaeth Coed Lleol. Machynlleth.

## Diolchiadau

Hawlfraint y Goron ar gyfer y mapiau i gyd. Cedwir pob hawl. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 100018813 (2010).

## Manylion Cyswllt Cyngor Cefn Gwlad Cymru

**Pencadlys:**
Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Maes-y-Ffynnon, Penrhosgarnedd,
Bangor, Gwynedd LL57 2DW

Llinell ymholiadau: 08451 306 229

E-bost: enquiries@ccw.gov.uk

www.ccw.gov.uk